



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cloddio Data Cymru:

*Y proffil blynyddol ar gyfer
camddefnyddio sylweddau*

2023/24

**Adroddiad ystadegol blynyddol ar y defnydd o alcohol a
chyffuriau o setiau data'r gwasanaethau iechyd, gofal
cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol yng Nghymru**

Gwybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau yn gweithio i fynd i'r afael â'r bygythiadau presennol, a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, i iechyd cyhoeddus yng Nghymru ac yn unol â'r amcan strategol trosfwaol i 'leihau anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd, ac atal neu leihau clefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy, niwed ehangach a marwolaeth gynamserol sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau ac alcohol ac ymddygiadau risg cysylltiedig.

Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Capital Quarter

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Awduron: Savannah King a Rick Lines

Gyda diolch arbennig i Elizabeth Walsh (DHCW) a chydweithwyr yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd, DU.

Cynnwys

Cynnwys.....	2
1 Rhagymadrodd	5
2 Crynodeb Gweithredol.....	6
Tueddiadau ar lefel y boblogaeth	6
Plant a phobl ifanc (dan 25 oed).....	6
Oedolion 25-49 oed	7
Oedolion hŷn, 50 oed a hŷn.....	7
3 Prif dueddiadau'r boblogaeth	9
3.1 Derbyniadau i ysbytai sy'n ymwneud ag alcohol a gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon	9
3.2 Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau	10
4 Derbyniadau i ysbytai yn ymwneud â defnyddio alcohol.....	12
4.1 Derbyniadau i'r ysbyty sy'n alcohol-benodol ac y gellir eu priodoli i alcohol.....	12
4.2 Derbyniadau yn ymwneud ag alcohol i ysbytai fesul ardal breswyl awdurdod lleol yng Nghymru	13
5 Derbyniadau i'r ysbyty yn ymwneud â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon	18
5.1 Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno gyda chyffuriau anghyfreithlon.....	18
5.2 Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno yn ôl y math o sylwedd..	18
5.3 Derbyniadau a oedd yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon i'r ysbyty fesul ardal breswyl Bwrdd Iechyd yng Nghymru.....	21
6 Derbyniadau i ysbytai yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau: derbyniadau seiciatrig	24
7 Camddefnyddio sylweddau ac amddifadedd.....	25
8 Asesiadau gwasanaeth camddefnyddio sylweddau arbenigol.....	27
8.1 Asesiadau yn ôl y prif sylwedd a gyflwynwyd a man preswyl yn ôl Bwrdd Iechyd.....	27
8.2 Unigolion sy'n newydd i wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol.....	30
9 Iechyd cynenedigol ac ôl-enedigol.....	32
9.1 Amodau sy'n tarddu o'r cyfnod amenedigol: Syndrom alcohol y ffetws	32
9.2 Ffetysau a babanod newydd-anedig yr effeithir arnynt gan famau a oedd yn defnyddio cyffuriau caethiwus neu'n diddyfnu ohonynt.....	32
10 Plant a phobl ifanc (hyd at 24 oed)	34
10.1 Plant sy'n derbyn gofal a chymorth gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau	34
10.2 Gwaharddiadau o'r ysgol oherwydd camddefnyddio sylweddau	36

10.3 Derbyniadau i'r ysbyty a oedd yn ymwneud ag alcohol ymhlith plant a phobl ifanc	36
10.4 Derbyniadau ysbyty oherwydd gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon mewn plant a phobl ifanc.....	38
10.5 Asesiadau mewn gwasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau arbenigol ymhlith plant a phobl ifanc	40
11 Oedolion 25 i 49 oed.....	43
11.1 Derbyniadau ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol, oedolion 25-49 oed.....	43
11.2 Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon ymhlith oedolion 25-49 oed	44
11.3 Asesiad gan wasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, oedolion 25-49 oed	46
12 Oedolyn hŷn 50 oed a throsodd.....	49
12.1 Derbyniadau ysbyty ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol, oedolion hŷn 49	
12.2 Derbyniadau i ysbytai oherwydd gwenwyno gyda chyffuriau anghyfreithlon mewn oedolion hŷn.....	50
12.3 Asesiad gan wasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, oedolion hŷn	52
13 Defnydd hunan-gofnodedig o gyffuriau anghyfreithlon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: oedolion 16-59 oed	55
14 Defnyddio cyffuriau trwy chwistrellu: ymddygiadau risg a firysau a gludir yn y gwaed.....	57
14.1 Pobl sy'n chwistrellu cyffuriau ac sy'n defnyddio Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrellau	57
14.2 Ymddygiadau risg ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau.....	60
Nifer yr achosion o haint feirws a gludir yn y gwaed ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau.....	61
14.3 Amcangyfrifon o ddefnydd problemus o gyffuriau yng Nghymru	62
15 Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol	63
15.1 Marwolaethau alcohol-benodol yn ôl blwyddyn cofrestru.....	63
15.2 Cyfraddau marwolaethau alcohol-benodol yng Nghymru yn ôl rhywedd ac ardal breswyl Bwrdd Iechyd.....	64
15.3 Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol	65
16 Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau	68
16.1 Marwolaethau trwy wenwyno gan gyffuriau a marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn ôl rhywedd a grŵp oedran	68
16.2 Marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn ôl rhywedd a grŵp oedran	69
16.3 Marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau yn ôl y sylweddau a adroddwyd.....	70
16.4 Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau fesul ardal Bwrdd Iechyd	71

17 Troseddau cyffuriau a gofnodwyd gan yr heddlu a phurdeb cyffuriau a atafaelwyd gan yr heddlu: pob oed	74
17.1 Troseddau cyffuriau a gofnodwyd yng Nghymru.....	74
17.2 Atafaeliadau cyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru	75
17.3 Pris a phurdeb cyffuriau anghyfreithlon dethol – DU.....	77
18 Atodiadau.....	80
Atodiad A: Derbyniadau ysbyty a oedd yn ymwneud ag alcohol - diffiniadau	80
Atodiad B: Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol - diffiniadau ..	90
Atodiad C: Derbyniadau ysbyty oherwydd gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon - diffiniadau	93
Atodiad D: Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau - diffiniadau	94
Atodiad E: Cyfyngau hyder	97
Atodiad F: Cyfrifo cyfraddau poblogaeth o dderbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau a dangosyddion iechyd cyhoeddus eraill.....	98
Atodiad G: Defnydd problemus o gyffuriau: diffiniadau ac amcangyfrifon o fynychder	99

1 Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad ystadegol hwn yn rhoi crynodeb o'r data sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a adroddir fel mater o drefn sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Cymru. Daw tystiolaeth o nifer o ffynonellau data gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Cronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD) Cymru, Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM), y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol a data'r Swyddfa Gartref. Bwriedir i'r adroddiad hwn gael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag adroddiad Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru ar ddata triniaethau ar gyfer yr un cyfnod er mwyn rhoi proffil cyflawn o raddfa a natur camddefnyddio sylweddau, boed yn gyffuriau neu'n alcohol, yng Nghymru.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad wedi'i strwythuro i archwilio'n well y dystiolaeth sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau dros gwrs bywyd, o ddefnydd cynenedigol a mamol o gyffuriau ac alcohol, hyd at gamddefnyddio sylweddau ymhlith oedolion hŷn. Bydd y proffil hefyd yn dangos amrywiadau daearyddol yn y niwed i iechyd sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol o ran derbyniadau i'r ysbyty, cyfraddau clefydau a marwolaethau, yn ogystal â thueddiadau dros amser.

Yn Adran 1, mae'r adroddiad yn cyflwyno data sy'n seiliedig ar y boblogaeth ac sy'n ymwneud â defnydd hunangofnodedig a mesurau gwrthrychol gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty er mwyn rhoi trosolwg o gyd-destun a graddau'r niwed i iechyd ac ymddygiad risg sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru. Bydd adrannau dilynol wedyn yn canolbwyntio ar grwpiau oedran penodol: Mae plant a phobl ifanc (0-24 oed), oedolion o oedran gweithio (25-49 oed) ac oedolion hŷn (50 oed a hŷn), lle mae data ar gael, yn darparu proffil daearyddol fesul bwrdd iechyd ac awdurdod lleol. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn adnodd hanfodol i'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu a chynllunio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cysylltiedig sy'n atal a/neu fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb ehangach mewn camddefnyddio sylweddau, penderfyniadau a goblygiadau cymdeithasol ehangach.

Ni ddylid dehongli'r data a gyflwynir yma ar gyfer 2021-22 fel rhan o ddadansoddiad parhaus o dueddiadau o ystyried yr aflonyddwch sylweddol i wasanaethau arferol a ddigwyddodd yn ystod pandemig COVID-19 ac felly mae'n adlewyrchu'r heriau a wynebier gan yr holl wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol a'r unigolion sy'n eu defnyddio. Yn fwy cyffredinol, ni ddylid defnyddio data un flwyddyn i amcangyfrif neu gasglu unrhyw newidiadau gwirioneddol o fewn y boblogaeth sy'n defnyddio sylweddau.

2 Crynodeb Gweithredol

Tueddiadau ar lefel y boblogaeth

- Derbyniwyd dros ddwywaith yn fwy o unigolion i'r ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol nag ar gyfer defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2023/24, er bod y ddau wedi parhau i ostwng yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd nifer y derbyniadau oherwydd cyflyrau alcohol-benodol 3.1 y cant a gostyngodd derbyniadau yn ymwneud â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon 10.6 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf
- Mae opioïdau yn parhau i fod y grŵp sylweddau sy'n gysylltiedig â'r nifer uchaf o dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon, er bod hyn wedi gostwng yn y flwyddyn flaenorol
- Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae derbyniadau seiciatrig wedi gostwng 53.7 y cant ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol a 46.9 y cant ar gyfer cyflyrau sy'n ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon
- Roedd cyfran yr holl gleifion a dderbyniwyd oherwydd cyflyrau alcohol-benodol yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 2.8 gwaith yn uwch na'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. O ran defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, roedd canran y cleifion a dderbyniwyd 6.4 gwaith yn uwch
- Bu gostyngiad o 7.4 y cant yn nifer yr unigolion unigryw a aseswyd o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol yng Nghymru o gymharu â'r llynedd ac mae'r canran bellach 11.5 y cant yn is nag yn 2019/20. O'r holl asesiadau, roedd 46.3 y cant yn gleientiaid sy'n defnyddio alcohol mewn ffordd broblemus sylfaenol, roedd 43.5 y cant yn gleientiaid sy'n defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus sylfaenol, ac ni chofnodwyd sylwedd ar gyfer y 10.2 y cant arall
- Cododd nifer y marwolaethau o gamddefnyddio cyffuriau a gofrestrwyd yn 2023 yn sylweddol i 253 o farwolaethau, cynnydd o 18.6 y cant o'r flwyddyn flaenorol a'r nifer uchaf erioed o farwolaethau o gamddefnyddio cyffuriau. Cynyddodd cofrestriadau marwolaethau alcohol-benodol hefyd i'r lefel uchaf erioed gan gyrraedd 562 o farwolaethau yn 2023, cynnydd o 15.6 y cant ers 2022

Plant a phobl ifanc (dan 25 oed)

- Ar 31 Mawrth 2023, roedd 5,190 o blant yn derbyn gofal a chymorth oherwydd bod eu rhieni'n camddefnyddio sylweddau, cynnydd bach ers y flwyddyn flaenorol. Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal a chymorth y nodwyd eu bod yn camddefnyddio sylweddau eu hunain fel problem oedd 755, sef 4.3 y cant o'r holl blant a oedd yn derbyn gofal a chymorth. Mae nifer a chyfran y plant sy'n camddefnyddio sylweddau eu hunain wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf
- Cynyddodd nifer y gwaharddiadau ysgol yn ymwneud â chyffuriau neu alcohol ymhellach ym mlwyddyn academiaidd 2022/23. Roedd cyfanswm o

939 o'r gwaharddiadau ysgol hyn ymhlith plant oed ysgol, cynnydd o 8.1 y cant ers 2021/22, sef y brig blaenorol.

- Roedd 333 o dderbyniadau yn ymwneud â phobl ifanc dan 25 oed â chyflwr alcohol-benodol yn 2023/24, gostyngiad o 17.4 y cant o gymharu â 2022/23. Bu gostyngiad o 8.6 y cant mewn derbyniadau ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon (631 o dderbyniadau) ymhlith y garfan oedran hon yn yr un flwyddyn
- Ymhlith y bobl sy'n chwistrellu cyffuriau sy'n cael mynediad rheolaidd at Raglenni Nodwyddau a Chwistrellau (NSPs) yng Nghymru yn y grŵp oedran hwn, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn defnyddio IPED (86.3 y cant).

Oedolion 25-49 oed

- Ymhlith y garfan oedran hon, mae derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol ac ar gyfer gwenwyno o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon wedi gostwng 3.9 y cant a 12.7 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn y drefn honno.
- Parhaodd opioidau i gyfrif am fwy o dderbyniadau i'r ysbyty nag unrhyw grŵp sylweddau anghyfreithlon arall, er bod y bwlch hwn yn lleihau, sef 35.1 y cant o dderbyniadau ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon yn y grŵp oedran hwn
- IPEDs oedd y grŵp sylweddau a adroddwyd amlaf (56.8 y cant) ymhlith unigolion yn y grŵp oedran hwn a oedd yn cyrchu NSPs yn rheolaidd ac yna opioidau (38.0 y cant).
- Roedd marwolaethau o gamddefnyddio cyffuriau ar eu huchaf yn y categori oedran 40-49, gan gyfrif am 35.2 y cant o'r holl farwolaethau o gamddefnyddio cyffuriau (n=89) a gofrestrwyd yn 2023

Oedolion hŷn, 50 oed a hŷn

- Roedd unigolion 50 oed a hŷn yn cyfrif am 67.0 y cant o'r holl rai a dderbyniwyd i'r ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol, a 29.8 y cant o'r holl rai a dderbyniwyd i'r ysbyty ar ôl defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2023/24. Mae'r cyfrannau hyn wedi aros yn gymharol sefydlog ers y flwyddyn flaenorol
- O fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol, alcohol oedd y sylwedd, yr oedd pobl yn nodi bod eu defnydd ohono yn broblemus, a gyflwynwyd amlaf, sef 66.4 y cant o asesiadau. Mae hyn yn cymharu â 12.0 y cant o asesiadau lle nodwyd mai opioidau oedd y prif sylwedd a ddefnyddiwyd. Mae asesiadau ar gyfer alcohol ac opioidau wedi gostwng yn y flwyddyn ddiweddaraf, tra bod asesiadau ar gyfer cocên a chrac cocên wedi cynyddu 28.3 y cant yn y garfan oedran hon.
- Roedd unigolion sy'n cyrchu NSPs yn rheolaidd yn y garfan oedran hon yn nodi defnydd opioidau amlaf (47.1 y cant) ac yna IPEDs (36.6 y cant)

3 Prif dueddiadau'r boblogaeth

3.1 Derbyniadau i ysbytai sy'n ymwneud ag alcohol a gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon

Mae derbyniadau i ysbytai yn fesur a ddefnyddir yn gyffredin i asesu niwed alcohol a chyffuriau anghyfreithlon i unigolion. Er eu bod yn debygol o adlewyrchu'r niwed sy'n gysylltiedig â defnydd ar ben mwyaf problemus y sbectrwm defnyddio alcohol a chyffuriau, gall ffigurau ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty fod yn fesurydd defnyddiol ac, yn bwysig, yn fesurydd cyson o'r niwed hwn dros amser. Disgrifir rhai o'r cymhlethdodau a'r diffiniadau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio data derbyniadau i'r ysbyty yn fanwl yn Atodiadau A i C y ddogfen hon.


Dangosir derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol a chyffuriau anghyfreithlon fesul blwyddyn yn Siart 1. Yn 2023/24 roedd:

- 3,850 o dderbyniadau i'r ysbyty yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon gyda 3,077 ohonynt yn unigolion unigryw
- 12,236 o dderbyniadau alcohol-benodol gyda 8,147 ohonynt yn unigolion unigryw

Fel y gwelir o Siart 1, mae derbyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau oedran yn gymharol sefydlog dros amser. Mae niferoedd cymaradwy o dderbyniadau ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon ac alcohol i'w gweld o'r grwpiau oedran 10-14 hyd at y grŵp oedran 35-39, ac wedi hynny, mae derbyniadau ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon yn gostwng yn raddol tra bod y rhai ar gyfer cyflyrau cysylltiedig ag alcohol yn parhau i godi, gan gyrraedd uchafbwynt yn y grŵp oedran 55 - 59.

Ers 2011/12, y grŵp oedran mwyaf cyffredin sy'n cael eu derbyn ar gyfer derbyniadau alcohol-benodol yw'r rhai dros 50 oed. Yn 2023/24, roedd y rhai dros 50 oed yn cyfrif am 66.2 y cant o'r holl unigolion a dderbyniwyd o gymharu â 30.1 y cant yn y grŵp oedran 25-49 a 3.7 y cant ymhlith y rhai dan 25 oed.

Ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty ar sail unigolion yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon, yn 2023/24, y grwpiau oedran mwyaf cyffredin a gofnodwyd oedd pobl 25 – 49 oed, sef 53.1 y cant o'r holl unigolion a dderbyniwyd, gyda 29.6 y cant pellach ymhlith y rhai dros 50 oed a'r 17.3 y cant arall o dan 25 oed. Mae'r dosbarthiad oedran hwn yn parhau'n gymharol sefydlog dros amser.




II: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 1: Derbyniadau ysbyty ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol a chyffuriau anghyfreithlon, 2019/20 i 2023/24, yn ôl cwintel oedran.

3.2 Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon ac alcohol yn dangos patrymau brig oedran amlwg. Yn 2023, roedd marwolaethau oherwydd cyffuriau anghyfreithlon ar eu huchaf yn y grŵp oedran 45-49 ond roedd marwolaethau alcohol-benodol ar eu huchaf o fewn y grŵp oedran 60-64 oed, fel y dangosir yn Siart 2. Mae marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau anghyfreithlon yn digwydd o fewn ystodau oedran 15-19 i 65-69, gyda niferoedd isel iawn wedi'u cofnodi mewn oedolion hŷn, tra bod ystod oedran ehangach i'w gweld ar gyfer marwolaethau oherwydd alcohol, o 20-24 hyd at 90+ oed. Mae'r holl ddata ynghylch marwolaethau yn yr adroddiad hwn yn cael eu cofnodi yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024

Siart 2: Marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau a chyflyrau alcohol-benodol, Cymru, 2019-2023, yn ôl cwntel oedran.

4 Derbyniadau i ysbytai yn ymwneud â defnyddio alcohol

4.1 Derbyniadau i'r ysbyty sy'n alcohol-benodol ac y gellir eu priodoli i alcohol

Mae 'cyflyrau alcohol-benodol' yn cael eu diffinio'n gyffredin fel y cyflyrau hynny, fel clefyd alcoholaidd yr afu, y gellir eu priodoli'n gyfan gwbl i'r defnydd o alcohol. Yn ddiweddar, mae mesurau ychwanegol yn ymwneud â 'chyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol' wedi'u hadrodd yn amlach mewn llenyddiaeth sy'n gwerthuso niwed alcohol. Mae mesurau y gellir eu priodoli i alcohol yn cynnwys yr amodau hynny, sydd wedi'u gwerthuso fel rhai a achosir yn rhannol, ond nid yn gyfan gwbl, gan yfed alcohol o'u hystyried ar draws y boblogaeth gyfan. Felly mae ffigurau y gellir eu priodoli i alcohol yn ychwanegu dimensiwn pellach at ddadansoddiad o niwed alcohol. Gellir disgrifio derbyniadau alcohol-benodol i'r ysbyty a derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol mewn mesurau 'ar sail unigolion' (nifer yr unigolion a dderbynnir o fewn cyfnod penodol o amser, gyda phob un yn cael ei gyfrif unwaith yn unig) neu fesurau 'ar sail derbyniadau' (lle mae holl dderbyniadau pob unigolyn wedi'u cynnwys, oherwydd yn aml gall un unigolyn gael ei dderbyn ar fwy nag un achlysur mewn blwyddyn benodol). Gweler Atodiad A am ddisgrifiad manylach.

Mae Tabl 1 yn dangos ffigurau manwl ar gyfer dangosyddion alcohol allweddol ledled Cymru ar gyfer y pum mlynedd ddiweddaraf. Derbyniwyd 8,147 o unigolion unigryw â chyflwr alcohol-benodol mewn unrhyw sefyllfa ddiagnostig yn 2023/24, gan gyfrif am 12,236 o dderbyniadau. Mae nifer yr unigolion unigryw a dderbyniwyd oherwydd cyflyrau alcohol-benodol wedi gostwng 17.8 y cant dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Y gyfradd safonedig yn ôl oedran Ewropeaidd (EASR) o dderbyniadau alcohol-benodol oedd 258 o bobl fesul 100,000 o'r boblogaeth. Nifer yr unigolion unigryw a dderbyniwyd oherwydd cyflwr y gellir ei briodoli i alcohol yn 2023/24 oedd 32,789, gan aros yn sefydlog ers y flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd cyflwr y gellir ei briodoli i alcohol sefyllfa sylfaenol ar gyfer 10,826 o unigolion.

Tabl 1: Derbyniadau yn ymwneud ag alcohol i ysbytai ymhlith trigolion Cymru, yn ôl dangosydd, rhywedd a blynyddoedd 2019/20 i 2023/24

	Rhywedd	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Nifer yr unigolion a dderbyniwyd gyda chyflwr alcohol-benodol mewn unrhyw sefyllfa ddiagnostig	Pobl	9,917	8,580	9,054	8,455	8,147
	Dynion	6,457	5,520	5,863	5,566	5,400
	Menywod	3,460	3,060	3,191	2,889	2,747
Nifer y derbyniadau i'r ysbyty gyda chyflwr alcohol-benodol mewn unrhyw sefyllfa ddiagnostig	Pobl	15,145	13,146	13,849	12,624	12,236
	Dynion	9,946	8,559	9,022	8,362	8,124
	Menywod	5,199	4,587	4,827	4,262	4,112
Nifer yr unigolion a dderbyniwyd gyda chyflwr y gellir ei briodoli i alcohol mewn unrhyw sefyllfa ddiagnostig	Pobl	36,583	28,450	32,782	32,720	32,789
	Dynion	23,499	18,355	21,042	21,036	21,094
	Menywod	13,084	10,095	11,740	11,684	11,695
Nifer y derbyniadau i'r ysbyty gyda chyflwr y gellir ei briodoli i alcohol mewn unrhyw sefyllfa ddiagnostig	Pobl	58,107	44,987	52,655	52,134	52,177
	Dynion	37,743	29,251	34,132	33,657	33,835
	Menywod	20,364	15,736	18,523	18,477	18,342

Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

4.2 Derbyniadau yn ymwneud ag alcohol i ysbytai fesul ardal breswyl awdurdod lleol yng Nghymru

Roedd amrywiad daearyddol sylweddol mewn cyfraddau safonedig (gweler Atodiad F) o dderbyniadau alcohol-benodol i'r ysbyty ledled Cymru fel y dangosir yn Nhabl 2. Ardal Awdurdod Lleol Merthyr Tudful oedd â'r gyfradd uchaf gyda 397 o dderbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth oherwydd cyflyrau alcohol-benodol. Mae hyn fwy na 2 waith yn uwch na'r gyfradd gymaradwy a gofnodwyd ym Mhowys, yr Awdurdod Lleol sydd â'r cyfraddau isaf yng Nghymru, sef 191 o dderbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 15 o'r 22 ardal Awdurdod Lleol wedi gweld gostyngiad yng nghyfraddau'r unigolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty â chyflwr alcohol-benodol. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych, gyda'r ddau yn adrodd gostyngiad o 27 y cant yn 2023/24. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yng nghyfraddau'r unigolion a dderbyniwyd gyda chyflwr alcohol-

Tabl 2: Y Gyfradd safonedig yn ôl oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer unigolion sy'n byw yng Nghymru a dderbyniwyd i'r ysbyty oherwydd cyflwr alcohol-benodol mewn unrhyw sefyllfa, 2023/24, fesul ardal Awdurdod Lleol


Bwrdd Iechyd	Awdurdod Lleol	EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth 2023/24	Newid ers 2022/23	Newid ers 2018/19
Aneurin Bevan	Blaenau Gwent	366	-9%	-31%
	Caerffili	323	3%	-18%
	Sir Fynwy	208	-7%	-28%
	Casnewydd	302	2%	-25%
	Torfaen	255	-3%	-36%
Betsi Cadwaladr	Conwy	243	-27%	-38%
	Sir Ddinbych	281	-27%	-32%
	Sir y Fflint	297	-10%	-7%
	Gwynedd	211	-23%	-29%
	Ynys Môn	196	-22%	-38%
	Wrecsam	367	-5%	11%
Caerdydd a'r Fro	Caerdydd	231	22%	-28%
	Bro Morgannwg	204	20%	-38%
Cwm Taf Morgannwg	Pen-y-bont ar Ogwr	235	11%	-18%
	Merthyr Tudful	397	12%	-18%
	Rhondda Cynon Taf	300	-4%	-27%
Hywel Dda	Sir Gaerfyrddin	293	3%	-12%
	Ceredigion	264	3%	-4%
	Sir Benfro	219	-7%	-28%
Powys	Powys	191	-4%	-32%
Bae Abertawe	Castell-nedd Port Talbot	235	-3%	-29%
	Abertawe	209	-24%	-35%
Cymru	Cymru	258	-5%	-25%

Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Mae Ffigur 2 a Thabl 3 yn dangos yr EASR fesul 100,000 ar gyfer derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol (mesur bras ar sail unigolion) yn 2023/24. Blaenau Gwent oedd yr ardal awdurdod lleol gyda’r gyfradd uchaf o dderbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol, sef 1,341 o dderbyniadau ar sail unigolion fesul 100,000 o’r boblogaeth a chofnodwyd y gyfradd isaf ym Mro Morgannwg gyda 827 o dderbyniadau ar sail unigolion fesul 100,000 o’r boblogaeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 9 o’r 22 ardal Awdurdod Lleol wedi gweld gostyngiad mewn derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol. Gwelwyd y gostyngiad cymesurol uchaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych, gyda’r ddau yn adrodd gostyngiad o 18 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf. I’r gwrthwyneb, mae 13 o’r ardaloedd

Awdurdod Lleol sy'n weddill wedi gweld cynnydd mewn derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol gyda chynnydd o 10 y cant ym Merthyr Tudful, yr Awdurdod Lleol â'r cynnydd mwyaf.



Ffigur 2: Derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol, Unigolion sy'n byw yng Nghymru, yn seiliedig ar gyfnodau, mesur bras, 2023/24, fesul ardal Awdurdod Lleol, Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd

Tabl 3: Y gyfradd safonedig yn ôl oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol ar gyfer unigolion sy'n byw yng Nghymru, yn seiliedig ar unigolion, mesur bras, 2023/24, fesul ardal Awdurdod Lleol.


Bwrdd Iechyd	Awdurdod Lleol	EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth 2023/24	Newid ers 2022/23	Newid ers 2018/19
Aneurin Bevan	Blaenau Gwent	1,341	-1%	-16%
	Caerffili	1,310	7%	-7%
	Sir Fynwy	994	4%	-6%
	Casnewydd	1,286	9%	-2%
	Torfaen	1,183	1%	-15%
Betsi Cadwaladr	Conwy	828	-18%	-28%
	Sir Ddinbych	905	-18%	-27%
	Sir y Fflint	1,020	-4%	-8%
	Gwynedd	832	-16%	-21%
	Ynys Môn	837	-17%	-21%
	Wrecsam	1,152	0%	-1%
Caerdydd a'r Fro	Caerdydd	861	8%	-28%
	Bro Morgannwg	827	4%	-32%
Cwm Taf Morgannwg	Pen-y-bont ar Ogwr	979	4%	-18%
	Merthyr Tudful	1,153	10%	-23%
	Rhondda Cynon Taf	983	-2%	-29%
Hywel Dda	Sir Gaerfyrddin	1,123	7%	-9%
	Ceredigion	913	3%	-14%
	Sir Benfro	935	1%	-13%
Powys	Powys	998	1%	-15%
Bae Abertawe	Castell-nedd Port Talbot	976	-5%	-20%
	Abertawe	931	-6%	-21%
Cymru	Cymru	1,001	-1%	-18%

Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

5 Derbyniadau i'r ysbyty yn ymwneud â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon

5.1 Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno gyda chyffuriau anghyfreithlon

Yn gyffredinol, mae nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno gyda chyffuriau anghyfreithlon a enwir wedi gostwng 10.6 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf, o 4,347 yn 2022/23 i 3,850 yn 2023/24. O gymharu â 2019/20, bu gostyngiad o 38.9 y cant mewn derbyniadau oherwydd cyffuriau anghyfreithlon. Nifer yr unigolion unigryw a dderbyniwyd oherwydd cyffuriau anghyfreithlon yn 2023/24 oedd 3,077, gostyngiad o 10.8 y cant o 3,451 yn 2022/23. Mae nifer y dynion a'r menywod a dderbyniwyd wedi gostwng dros y pum mlynedd ddiwethaf. Dangosir nifer yr unigolion (gyda'r data rhywedd sydd ar gael) a dderbyniwyd i'r ysbyty oherwydd cyffuriau anghyfreithlon dros y naw mlynedd ddiwethaf yn Siart 3.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 3: Unigolion sy'n byw yng Nghymru a dderbyniwyd i'r ysbyty gyda chyflwr yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon, yn ôl blwyddyn a rhywedd 2019/20 i 2023/24

5.2 Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno yn ôl y math o sylwedd

Fel y dangosir yn Siart 4, mae'r EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty sy'n ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon wedi gostwng dros y pum mlynedd ddiwethaf gan gofnodi isafbwynt newydd o 127.4 o dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer y flwyddyn 2023/24. Gostyngodd yr EASR fesul

100,000 o dderbyniadau ar gyfer opioidau 12.8 y cant yn 2023/24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r EASR ar gyfer derbyniadau ar gyfer pob math o sylwedd wedi gostwng yn y flwyddyn ddiweddaraf.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 4: Derbyniadau i ysbytai yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon, trigolion Cymru, Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd fesul 100,000, yn ôl math o sylwedd 2019/20 i 2023/24

5.2.1 Opioidau


Mae opioidau yn parhau i fod y grŵp sylweddau sy'n gysylltiedig â'r nifer uchaf o unigolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a'r nifer uchaf o dderbyniadau oherwydd cyffuriau anghyfreithlon. Yn 2023/24, derbyniwyd cyfanswm o 1,124 o unigolion, gan gyfrif am gyfanswm o 1,402 o dderbyniadau sy'n gysylltiedig ag opioidau, sef gostyngiad o 17.0 y cant a 19.2 y cant yn y drefn honno o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yr EASR ar gyfer derbyniadau a oedd yn gysylltiedig ag opioidau yn 2023/24 oedd 46.7 o dderbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth, 20.4 y cant yn is na'r gyfradd a gofnodwyd y llynedd.

5.2.2 Canabinoidau

Canabinoidau yw'r ail grŵp sylweddau uchaf gyda 961 o dderbyniadau i'r ysbyty yn 2023/24 yn ymwneud ag 807 o unigolion a dderbyniwyd. Roedd gostyngiad o 12.4 y cant yn nifer y derbyniadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (1,097 o dderbyniadau yn 2022/23). Yr EASR ar gyfer derbyniadau oherwydd canabinoidau oedd 31.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2023/24, gan barhau â gostyngiad

cyson dros y 5 mlynedd ddiwethaf o 44.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2019/20.

Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw wahaniaeth yn bosibl mewn data derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer gwahaniaethu rhwng cynhyrchion cannabinoid: resin canabis, straeniau cryfach o ganabis llysieuol 'skunk;' neu ffurfiau mwy newydd o weithyddion derbynyddion cannabinoid synthetig (SCRAs), y cyfeirir atynt weithiau fel 'Sbeis'. Mae WEDINOS, prosiect sy'n profi a phroffilio sylweddau a gyflwynwyd o bob rhan o'r DU, yn darparu tystiolaeth o farchnad sylweddol ar gyfer SCRAs yng Nghymru ymhlith poblogaethau sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd yn y carchar.¹ Yn ogystal, mae'r EMCDDA wedi nodi cynnydd yng nghryfder y ffurfiau resin a pherlysiâu o ganabis dros y 10 mlynedd ddiwethaf.²



Siart 5: Unigolion a dderbyniwyd i'r ysbyty oherwydd gwenwyno gyda chyffuriau anghyfreithlon a enwir, Cymru 2014/15 i 2023/24

5.2.3 Cocên

Yn y gorffennol, roedd y cynnydd mwyaf mewn derbyniadau i ysbytai oherwydd cyffuriau anghyfreithlon yn ymwneud â chocên, fodd bynnag, mae derbyniadau wedi gostwng ychydig dros y pum mlynedd ddiwethaf, gan aros yn gymharol sefydlog yn gyffredinol. Yn 2023/24, roedd 414 o dderbyniadau a oedd yn gysylltiedig â chocên yn cynnwys 356 o unigolion. Rhwng 2014/15 a 2019/20,

¹ WEDINOS (2023) Philtre annual report, 2022-2023. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: <https://www.wedinos.org/resources/downloads/Annual-Report-22-23-English.pdf>

² EMCDDA 2019: European Drug Report – Trends and developments 2018. Ar gael yn: http://www.emcdda.europa.eu/emcdda-home-page_cy

cynyddodd yr EASR o 9.1 i 19.1 derbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth, ond mae wedi gostwng yn raddol ers hynny. Gall y cynnydd cychwynnol fod o ganlyniad i argaeledd a phurdeb cynyddol cocên powdr a chrac fel y manylir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ac y mae'r EMCDDA yn tystio iddo.^{3,4} Mae'r gostyngiad mewn derbyniadau ers 2020/21 yn dilyn tuedd ar draws bron pob grŵp sylweddau a gellir ei briodoli i amhariadau gwasanaeth oherwydd COVID-19.

5.2.4 Bensodiasepinau

Yn 2023/24, roedd 313 o dderbyniadau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau yn cynnwys 280 o unigolion. Yr EASR oedd 10.4 o dderbyniadau fesul 100,000 o'r boblogaeth. O'i gymharu â'r llynedd, bu gostyngiad o 18.1 y cant yn nifer y derbyniadau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau.

5.2.5 Symbylyddion eraill

Yn 2023/24, roedd 165 o dderbyniadau i'r ysbyty yn cynnwys 151 o unigolion. Mae nifer y derbyniadau sy'n ymwneud â'r categori 'symbylyddion eraill' yn aros tua'r un peth â'r flwyddyn flaenorol, gan ostwng 1.0 y cant yn unig o 166 yn 2022/23. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae derbyniadau a oedd yn ymwneud â 'symbylyddion eraill' wedi gostwng 22.2 y cant.

5.2.6 Defnydd o gyffuriau lluosog


Yn 2023/24, derbyniwyd 607 o unigolion lle cofnodwyd cyffuriau lluosog, gan gyfrif am 19.7 y cant o'r holl dderbyniadau oherwydd cyffuriau anghyfreithlon. Mae nifer y derbyniadau lle cofnodwyd cyffuriau lluosog wedi gostwng 20.7 y cant ers 2019/20.

5.3 Derbyniadau a oedd yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon i'r ysbyty fesul ardal breswyl Bwrdd Iechyd yng Nghymru

Yn yr un modd â derbyniadau i ysbytai a oedd yn ymwneud ag alcohol, roedd amrywiad daearyddol mewn derbyniadau anghyfreithlon a oedd yn ymwneud â chyffuriau. Fel y dangosir yn Siart 6, ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) sydd â'r EASR uchaf o dderbyniadau a oedd yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon (169.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth) ac ynghyd â Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chwm Taf Morgannwg, roedd ganddynt gyfraddau uwch na chyfartaledd Cymru yn 2023/24.

³ EMCDDA 2019: European Drug Report – Trends and developments 2018. Ar gael yn: http://www.emcdda.europa.eu/emcdda-home-page_cy


⁴ Gweler adran 17



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 6: Derbyniadau i'r ysbyty yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon, trigolion Cymru, Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl math o gyffur ac ardal Bwrdd Iechyd 2023/24

Mae Siart 7 yn dangos cyfradd derbyniadau i ysbytai oherwydd cyffuriau anghyfreithlon fesul bwrdd iechyd dros y pum mlynedd ddiwethaf. Gostyngodd derbyniadau ar draws yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru ac eithrio Caerdydd a'r Fro yn 2023/24 o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Er mai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw'r unig fwrdd iechyd i weld cynnydd yn y gyfradd dderbyniadau, mae'n parhau i fod y gyfradd isaf o gymharu â byrddau iechyd eraill. Roedd y gyfradd dderbyniadau uchaf ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, sy'n gyson â'r blynyddoedd diwethaf.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 7: Derbyniadau i ysbytai yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon, trigolion Cymru, Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth, fesul blwyddyn ac ardal Bwrdd Iechyd 2019/20 i 2023/24

6 Derbyniadau i ysbytai yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau: derbyniadau seiciatrig

Gall cyflyrau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau sy'n arwain at dderbyniadau i'r ysbyty fod yn gymhleth a hirdymor a gallant ymwneud ag amrywiaeth o arbenigeddau meddygol. Mae Tabl 4 yn dangos nifer y derbyniadau a oedd angen triniaeth seiciatrig. Roedd derbyniadau a oedd yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon yn llawer mwy tebygol o gynnwys triniaeth seiciatrig na'r rhai ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol. Mae cyfran y derbyniadau a oedd wedi cael triniaeth seiciatrig wedi gostwng yn 2023/24 ar gyfer derbyniadau anghyfreithlon yn ymwneud â chyffuriau ond mae'n parhau'n gymharol sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf ar gyfer derbyniadau alcohol-benodol.


Tabl 4: Derbyniadau i ysbyty seiciatrig a chyswllt ag arbenigedd seiciatrig (unrhyw ysbyty) a oedd yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, niferoedd a chyfran (%) o'r holl dderbyniadau (ar sail unigolion), 2019/20 i 2023/24

	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Derbyniadau alcohol-benodol (unrhyw sefyllfa)	570 (5.7%)	422 (4.9%)	310 (3.4%)	265 (3.1%)	264 (3.2%)
Derbyniadau oherwydd cyffuriau anghyfreithlon (unrhyw sefyllfa)	721 (14.5%)	596 (13.6%)	527 (13.6%)	452 (13.1%)	383 (12.4%)

Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

7 Camddefnyddio sylweddau ac amddifadedd

Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu mynegai amddifadedd lluosog⁵ sy'n rhestru pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA, ardaloedd daearyddol bach gyda phoblogaethau sefydlog o oddeutu 1,500) ar fesurau amddifadedd.⁶ Mae'r mesurau hyn yn caniatáu i bob cyfeiriad yng Nghymru gael ei ddyrannu i ddegradd o amddifadedd a'i raddio o'r 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig i'r 10 y cant o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae Siart 8 a Siart 9 yn dangos derbyniadau unigol unigryw gyda chyflyrau alcohol-benodol a chyffuriau anghyfreithlon yn ôl pob degradd amddifadedd.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 8: Derbyniadau unigol unigryw gyda chyflwr alcohol-benodol mewn unrhyw sefyllfa yn ôl degradd amddifadedd, 2023/24

⁵ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALC), <https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru?lang=en>

⁶ Sylwer mai mesur o'r ardal y mae unigolyn yn byw ynddi yw amddifadedd, yn hytrach na gwerthusiad o'u hamgylchiadau penodol.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 9: Derbyniadau unigol unigryw gyda chyflwr a oedd yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon mewn unrhyw sefyllfa yn ôl degradd amddifadedd, 2023/24


Mae'r ddwy siart yn dangos yn glir y berthynas rhwng lefel amddifadedd ac unigolion yng Nghymru a dderbyniwyd i'r ysbyty mewn perthynas ag alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon yn 2023/24. Roedd cyfran yr holl gleifion a dderbyniwyd oherwydd cyflyrau alcohol-benodol a oedd yn byw yn y 10 y cant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig 2.8 gwaith yn uwch na'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Ymhlith y rhai a dderbyniwyd oherwydd cyflyrau'n ymwneud â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, roedd y cyferbyniad hyd yn oed yn fwy amlwg gyda derbyniadau 6.4 gwaith yn uwch ymhlith y rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r rhai â'r amddifadedd lleiaf. Gall hyn hefyd adlewyrchu'r cysylltiadau rhwng amddifadedd a throseddoli a'r effaith gysylltiedig ar iechyd ac ymddygiadau risg.

8 Asesiadau gwasanaeth camddefnyddio sylweddau arbenigol

8.1 Asesiadau yn ôl y prif sylwedd a gyflwynwyd a man preswyl yn ôl Bwrdd Iechyd

Roedd 15,959 o asesiadau o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn 2023/24, sy'n ostyngiad o 8.8 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (17,502 o asesiadau). Roedd asesiadau yn 2023/24 16.7 y cant yn is na 5 mlynedd yn ôl (19,157 o asesiadau yn 2019/20). Roedd yr asesiadau hyn yn cynnwys 14,565 o unigolion unigryw, sef gostyngiad o 7.4 y cant o gymharu â 15,731 yn y flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr unigolion unigryw sy'n cwblhau asesiad o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi gostwng 11.5 y cant ers 2019/20. O'r unigolion a aseswyd:

- Roedd 6,748 (46.3 y cant) yn gleientiaid a oedd yn defnyddio alcohol mewn ffordd broblemus sylfaenol, ac roedd 50.7 y cant (n=3,420) ohonynt yn ddynion
- Roedd 6,336 (43.5 y cant) yn gleientiaid a oedd yn defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus sylfaenol gyda 39.9 y cant (n=2,525) ohonynt yn ddynion
- nid oedd gan 1,481 (10.2 y cant) sylwedd a gofnodwyd




Ffynhonnell: Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 10: Asesiadau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl blwyddyn a'r prif sylwedd yr adroddwyd eu bod yn ei ddefnyddio 2019/20 i 2023/24

Ymhlith yr asesiadau ar gyfer defnydd problemus o gyffuriau (n=6,955):

- Nodwyd opioïdau fel y prif sylwedd mwyaf cyffredin gyda 2,862 o asesiadau (41.2 y cant), sy'n ostyngiad o 19.3 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (3,545 o asesiadau). O'r rhain, roedd 2,273 o asesiadau (79.4 y cant) wedi nodi heroin fel y prif sylwedd, cyfran sy'n gyson â blynyddoedd diweddar
- Cannabis oedd y sylwedd nesaf a adroddwyd amlaf gyda 1,347 o asesiadau (19.4 y cant) i lawr o 1,672 o asesiadau yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, bu gostyngiad cyffredinol o 602 (30.9 y cant) dros y pum mlynedd ddiwethaf
- Mae nifer yr asesiadau gyda chocên, gan gynnwys crac cocên, fel y prif sylwedd wedi cynyddu o 1,582 yn 2019/20 i 1,843 yn 2023/24, cynnydd o 16.5 y cant dros y cyfnod hwn ac yn cynrychioli 25.0 y cant o'r holl atgyfeiriadau cyffuriau yn 2023/24. O'r rhain, roedd 1,157 (62.8 y cant) ar gyfer cocên a 686 o asesiadau (37.2 y cant) ar gyfer crac yn 2023/24 o'i gymharu â 1,249 (79.0 y cant) a 333 (21.0 y cant) yn y drefn honno yn 2019/20, sy'n dangos bod asesiadau yn ymwneud yn benodol â chrac wedi mwy na dyblu yn y pum mlynedd ddiwethaf.


Dangosir newidiadau yn nifer yr asesiadau camddefnyddio sylweddau dros y pum mlynedd ddiwethaf fesul ardal bwrdd iechyd yn Siart 11. Cynyddodd asesiadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 30.0 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a dyma'r uchaf o gymharu â byrddau iechyd eraill yn 2023/24, sef 3,300 o asesiadau. Mae asesiadau ym Myrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Caerdydd a'r Fro, ac Aneurin Bevan yn parhau i ostwng yn weddol gyflym - 63.6 y cant, 23.0 y cant, ac 13.1 y cant yn y drefn honno o 2021/22 i 2023/24.



Ffynhonnell: Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 11: Asesiadau camddefnyddio sylweddau a gynhelir gan wasanaethau yng Nghymru, fesul Bwrdd Iechyd 2019/20 i 2023/24

Dangosir asesiadau camddefnyddio sylweddau ar gyfer 2023/24 yn ôl bandiau oedran a rhywedd yn Siart 12. Fel sy'n amlwg o'r siart, mae oedran unigolion a aseswyd ar gyfer cymorth a thriniaeth alcohol fel arfer yn uwch nag ar gyfer cyffuriau ond mae'n fwy cyson ar draws pob oedran. Ymhlith menywod, mae nifer yr asesiadau ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon yn debyg i bum mlynedd yn ôl, gan ostwng 1.7 y cant yn unig. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod bu gostyngiad o 49.8 y cant mewn asesiadau ar gyfer sylweddau anghyfreithlon ymhlith dynion. Mae'r proffil sylweddau ar gyfer asesiadau o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol yn amrywio'n sylweddol gydag oedran fel y dangosir yn y penodau dilynol.




Ffynhonnell: Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 12: Nifer yr unigolion a aseswyd gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl sylwedd sylfaenol a adroddwyd (alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon), rhywedd a bandiau oedran pum mlynedd, 2019/20 i 2023/24

8.2 Unigolion sy'n newydd i wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol

Aseswyd 10,136 o unigolion yn 2023/24 nad oeddent wedi'u cofnodi'n flaenorol fel rhai a gafodd asesiad gyda gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, sef 63.5 y cant o'r holl unigolion a aseswyd yn y flwyddyn honno. Ymhlith y rhai a oedd yn newydd i wasanaethau, roedd 4,682 o asesiadau ar gyfer defnydd problemus sylfaenol o alcohol a 4,897 o asesiadau ar gyfer defnydd problemus o gyffuriau sylfaenol. Nid oedd sylwedd wedi'i gofnodi yn y 557 arall. Dangosir nifer yr unigolion unigryw sy'n newydd i wasanaethau yn Siart 13 yn ôl prif fath o sylwedd yr oedd eu defnydd ohono'n broblemus.



Ffynhonnell: Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 13: Nifer yr unigolion sy'n newydd i wasanaethau, a aseswyd gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn 2023/24 yn ôl y prif sylwedd yr adroddwyd eu bod yn ei ddefnyddio (alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon) a bandiau oedran pum mlynedd.

Roedd dosbarthiad oedran unigolion a aseswyd o'r newydd yn 2023/24 yn amrywio yn ôl prif sylwedd yr oedd eu defnydd ohono'n broblemus. Ymhlith y rhai a oedd yn cyflwyno gyda defnydd problemus sylfaenol o alcohol, roedd y mwyafrif (52.5 y cant) rhwng 30 a 50 oed gydag oedran canolrifol o 41. Ar gyfer y rhai a oedd yn cyflwyno gyda defnydd problemus sylfaenol o gyffuriau, roedd y mwyafrif (60.3 y cant) rhwng 25 a 45 oed gyda chanolrif o 34, sy'n dynodi grŵp iau.

Roedd cyfran y dynion a'r menywod a oedd yn newydd i wasanaethau yn amrywio ar draws y prif grwpiau o sylweddau yr oedd eu defnydd ohonynt yn broblemus. Ar gyfer asesiadau alcohol, roedd 46.6 y cant (n=2,180) yn ddynion tra ar gyfer asesiadau cyffuriau roedd 33.8 y cant yn ddynion (n=1,657), sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol.

9 Iechyd cynenedigol ac ôl-enedigol


9.1 Amodau sy'n tarddu o'r cyfnod amenedigol: Syndrom alcohol y ffetws

Mae syndrom alcohol y ffetws (FAS) yn deillio o ddefnydd mamau o alcohol yn ystod beichiogrwydd,⁷ cyflwr difrifol sydd fel arfer yn arwain at blant yr effeithir arnynt yn profi twf cyfyngedig, anhwylderau dysgu ac ymddygiadol a phroblemau ffisiolegol.

9.2 Ffetysau a babanod newydd-anedig yr effeithir arnynt gan famau a oedd yn defnyddio cyffuriau caethiwus neu'n diddyfnu ohonynt

Mae derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer ffetysau a babanod newydd-anedig yr effeithiwyd arnynt gan ddefnydd, neu ddiddyfniad, y fam o alcohol neu gyffuriau caethiwus eraill wedi gostwng yn gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r nifer isaf yn y 10 mlynedd ddiwethaf yn cael ei adrodd yn 2023/24 (gweler Atodiad A am ddiffiniad manwl). Yn 2023/24, cafwyd 34 o drigolion Cymru eu derbyn lle cofnodwyd y cyflyrau hyn mewn unrhyw sefyllfa ddiagnostig, gyda chyflwr perthnasol wedi'i gofnodi yn y safle sylfaenol mewn 15 o achosion. Heb unrhyw duedd glir dros y degawd diwethaf, dangosir derbyniadau yn Siart 14.

⁷ Mae rhagor o wybodaeth am Syndrom Alcohol y Ffetws a chyflyrau cysylltiedig ar gael yn: <http://www.nhs.uk/Conditions/foetal-alcohol-syndrome/Pages/Introduction.aspx>



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 14: Nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer ffetysau a babanod newydd-anedig yr effeithir arnynt gan ddefnydd, neu ddiddfyriad, y fam o alcohol neu gyffuriau caethiwed eraill yn ôl safle diagnostig 2014/15 i 2023/24

10 Plant a phobl ifanc (hyd at 24 oed)

10.1 Plant sy'n derbyn gofal a chymorth gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau

Yn dilyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r Cyfrifiad Plant mewn Angen wedi'i newid i'r Cyfrifiad 'Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth'. Oherwydd y newid mewn methodoleg, ni ddylid cymharu ffigurau â data cyn 2017. At hynny, mae'r ystadegau a gyflwynir yn dal i gael eu dosbarthu fel rhai arbrefol gan Lywodraeth Cymru a dylid bod yn ofalus wrth eu dehongli. Oherwydd oedi, mae data a gyflwynir yn yr adran hon flwyddyn ar ei hôl hi.

Yn 2022/23, roedd 17,515 o blant yn derbyn gofal a chymorth yng Nghymru, i fyny o 17,190 yn 2021/22,^{8,9,10} cynnydd o 1.9 y cant. O'r rhain, roedd 5,190 o blant (29.6 y cant) gyda rhieni yn camddefnyddio sylweddau wedi'u rhestru fel ffactor yn eu hatgyfeiriad (i fyny ychydig o 28.9 y cant yn 2021/22).


Mae amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol yng nghyfran y plant sy'n cael gofal a chymorth gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau, lle mae ffactorau rhieni yn hysbys, fel y dangosir yn Siart 15, gyda chyfartaledd Cymru (32.0 y cant) wedi'i nodi gan y llinell goch. Yn 2022/23, yr Awdurdodau Lleol â'r nifer fwyaf o achosion oedd Rhondda Cynon Taf gyda 545 o achosion ac yna Pen-y-bont ar Ogwr gyda 530 o achosion. Yn gymesur, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf sydd â'r gyfran uchaf o blant sy'n cael gofal a chymorth gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau (48 y cant a 45 y cant yn y drefn honno).¹¹

⁸ Cesglir ystadegau ar gyfer Plant mewn Angen trwy gyfrifiad o achosion agored ar 31 Mawrth bob blwyddyn ac maent yn adlewyrchu'r nifer ar yr adeg honno.

⁹ Diffinnir y term 'Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth' fel plant (o dan 18 oed) sydd â chynllun gofal a chymorth. Mae gan blant sy'n derbyn gofal gynllun gofal a chymorth a byddant yn is-set o'r boblogaeth hon.


¹⁰ Sylwch fod ystadegau wedi'u dosbarthu fel rhai arbrefol a dylid eu defnyddio'n ofalus.

¹¹ Gan fod yr ystadegau a gyflwynir yn cael eu dosbarthu fel rhai arbrefol, ni chyflwynir cymhariaeth rhwng blynyddoedd yma ond gellir ei gweld ar-lein yn Stats Cymru - <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support>



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2024

Siart 15: Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yng Nghymru, canran sydd â rhieni â phroblemau camddefnyddio sylweddau fesul awdurdod lleol, ar 31 Mawrth 2023




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2024

Siart 16: Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yng Nghymru, canran â phroblem camddefnyddio sylweddau fesul Awdurdod Lleol, ar 31 Mawrth 2023

10.2 Gwaharddiadau o'r ysgol oherwydd camddefnyddio sylweddau

Yn 2022/23 (blwyddyn academiaidd), cynyddodd nifer y gwaharddiadau ysgol yn ymwneud â chyffuriau neu alcohol yn gyffredinol o 869 yn 2021/22 i 939 (80.6 y cant) fel y dangosir yn Siart 17, gan nodi'r math o waharddiad fel un cyfnod penodol neu barhaol. Dyma'r nifer uchaf o waharddiadau ers 2011-12. Nid oes data ar gyfer 2019-20 gan fod ysgolion wedi bod ar gau am ran helaeth o'r flwyddyn academiaidd oherwydd pandemig COVID-19.

Cynyddodd nifer y gwaharddiadau parhaol o ddisgyblion oherwydd cyffuriau neu alcohol ychydig i 27 o achosion a chynyddodd nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol dros 5 diwrnod i 86 o achosion i fyny o 24 a 60 yn y drefn honno. Cynyddodd nifer y gwaharddiadau o 5 diwrnod neu lai 5 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf, o 785 i 826, yn dilyn naid fawr iawn yn y flwyddyn academiaidd flaenorol. O'r holl waharddiadau o'r ysgol (am unrhyw reswm), roedd gwaharddiadau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol yn cyfrif am 2.9 y cant yn 2022/23, gostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.




Siart 17: Nifer y gwaharddiadau ysgol a oedd yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol yn ôl math o waharddiad, 2013/14 i 2022/23.

10.3 Derbyniadau i'r ysbyty a oedd yn ymwneud ag alcohol ymhlith plant a phobl ifanc

Roedd 333 o dderbyniadau a oedd yn cynnwys pobl ifanc o dan 25 oed â chyflwr alcohol-benodol yn 2023/24, gostyngiad o 17.4 y cant o gymharu â'r flwyddyn


flaenorol. Roedd y derbyniadau yn ymwneud â 295 o unigolion ac roedd 58.6 y cant ohonynt yn ddynion. Roedd 99 o dderbyniadau gyda chod alcohol-benodol yn y sefyllfa sylfaenol (58.4 y cant o ddynion) gan gyfrif am 29.7 y cant o'r holl dderbyniadau alcohol-benodol ar gyfer y rhai dan 25 oed. Mae Siart 18 yn dangos nifer y derbyniadau ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol mewn unrhyw sefyllfa ddiagnostig ymhlith pobl o dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru yn 2023/24 yn ôl rhywedd a grŵp oedran.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 18: Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol ymhlith trigolion Cymru sydd o dan 25 oed, yn ôl rhywedd 2023/24

Mae Siart 19 yn dangos nifer y derbyniadau yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 25 oed â chyflwr alcohol-benodol yn ôl blwyddyn a rhywedd. Mae derbyniadau sy'n ymwneud â'r garfan oedran hon wedi gostwng 70.0 y cant dros y deng mlynedd ddiwethaf, o gymharu â 1,107 o dderbyniadau yn 2014/15. Gellir cymharu'r gostyngiad hwn rhwng menywod (75.4 y cant) a dynion (71.7 y cant). Fodd bynnag, yn 2023/24, arhosodd derbyniadau alcohol-benodol yn sefydlog ers y flwyddyn flaenorol ymhlith dynion ond bu gostyngiad o 35.1 y cant ymhlith menywod. Roedd y garfan dan 25 oed yn cyfrif am 2.7 y cant o'r holl dderbyniadau i'r ysbyty gyda chyflwr alcohol-benodol yn 2023/24.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 19: Derbyniadau sy'n cynnwys pobl ifanc o dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru â chyflwr alcohol-benodol, yn ôl blwyddyn a rhywedd 2014/15 i 2023/24

10.4 Derbyniadau ysbyty oherwydd gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon mewn plant a phobl ifanc


Yn 2023/24 ymhlith pobl ifanc hyd at 25 oed, roedd 631 o dderbyniadau o ran cyflyrau a oedd yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon, gostyngiad o 8.6 y cant o gymharu â 2022/23. Roedd y derbyniadau hyn yn cynnwys 527 o unigolion. Roedd derbyniadau ymhlith pobl ifanc hyd at 25 oed yn cyfrif am 16.4 y cant o'r holl dderbyniadau yn 2023/24 ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon. O'r unigolion a dderbyniwyd, roedd 55.2 y cant ohonynt yn ddynion a 44.4 y cant yn fenywod. Mae cyfran y derbyniadau gwrywaidd yn y garfan oedran hon wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Siart 20 yn dangos nifer y bobl ifanc o dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru ac a dderbyniwyd i'r ysbyty ar ôl defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2023/24.



II: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 20: Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyflyrau sy'n ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon ymhlith pobl ifanc hyd at 24 oed, preswlydd Cymreig yn ôl rhywedd a grŵp oedran, 2023/24

Mae Siart 21 yn dangos nifer y derbyniadau anghyfreithlon a oedd yn ymwneud â chyffuriau yn ôl sylwedd dros y deng mlynedd ddiwethaf ar gyfer y rhai dan 25 oed. Mae derbyniadau oherwydd defnydd o opioidau wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2015/16. Cynyddodd nifer y derbyniadau oherwydd canabinoidau i 264 yn 2022/23 ond mae wedi gostwng ychydig i 245 yn y flwyddyn ddiweddaraf. Yn dilyn uchafbwynt o 180 o dderbyniadau i'r ysbyty a oedd yn ymwneud â bensodiasepinau yn 2020/21, bu gostyngiad amlwg yn y tair blynedd ers hynny, i isafbwynt newydd o 45 o dderbyniadau yn 2023/24, sef gostyngiad o 75.0 y cant. Mae derbyniadau ysbyty oherwydd cocên wedi cynyddu i 83 yn y flwyddyn ddiweddaraf yn dilyn gostyngiad o 155 i 61 rhwng 2018/19 a 2022/23.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024


Siart 21: Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau anghyfreithlon yn ymwneud â phobl ifanc o dan 25 oed ac sy'n byw yng Nghymru, yn ôl blwyddyn a math o sylwedd, 2014/15 i 2023/24¹²

10.5 Asesiadau mewn gwasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau arbenigol ymhlith plant a phobl ifanc

Yn 2023/24, roedd 1,974 o asesiadau o bobl ifanc o dan 25 oed, sef gostyngiad o 11.1 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2,221 o asesiadau) sy'n cynrychioli 12.4 y cant o'r holl asesiadau yn 2023/24. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae nifer yr asesiadau wedi gostwng 24.4 y cant, gyda 2,611 o asesiadau yn 2019/20.

Mynychwyd yr asesiadau gan 1,889 o unigolion unigryw, gostyngiad o 20.2 y cant ers 2019/20 (2,366 o unigolion a aseswyd). Mae Siart 22 yn dangos asesiadau ar gyfer y grŵp oedran hwn yn ôl rhywedd, oedran a phrif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn problemus.

¹² Mae'n bosibl bod unigolion wedi'u derbyn ar gyfer mwy nag un grŵp sylweddau a byddent wedi cael eu cynnwys ym mhob grŵp perthnasol.




Siart 22: Pobl ifanc o dan 25 oed a aseswyd gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl rhywedd, band oedran a phrif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn broblemus, 2023/24¹³

Mae Siart 23 yn dangos nifer yr asesiadau fesul blwyddyn ac yn ôl y prif sylwedd yr adroddwyd amdano yn yr asesiad yn y grŵp oedran hwn. Er gwaethaf gostyngiad o 36.3 y cant o'i gymharu â 5 mlynedd yn ôl, canabis/cannabinoidau yw'r sylwedd yr adroddir amlaf bod defnydd pobl ohonynt yn broblemus mewn asesiadau o bobl ifanc o hyd.

Cynyddodd asesiadau cocên a chrac cocên i 306 o asesiadau yn 2023/24, gan gynyddu'n gyson yn y blynyddoedd diwethaf ond gan barhau i fod yn is na 2019/20 (423 o asesiadau). Mae nifer yr asesiadau a oedd yn ymwneud ag opioidau wedi gostwng 32.7 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a 61.7 y cant ers 2019/20. Bu gostyngiad o 17.3 y cant mewn asesiadau alcohol. Mae asesiadau ar gyfer amffetaminau ac ecstasi yn parhau'n gymharol sefydlog yn y blynyddoedd diweddaraf ond 59.6 y cant yn is na 5 mlynedd yn ôl.

¹³ Lle cafodd unigolyn ei asesu fwy nag unwaith, cymerwyd y manylion o'r asesiad cyntaf



Ffynhonnell: Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024


Siart 23: Asesiadau camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc o dan 25 oed, yn ôl blwyddyn a'r prif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn problemus 2019/20 i 2023/24, Cymru

11 Oedolion 25 i 49 oed

11.1 Derbyniadau ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol, oedolion 25-49 oed


Roedd 3,700 o dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol ymhlith oedolion 25-49 oed yn 2023/24, sy'n ostyngiad o 3.9 y cant ar y flwyddyn flaenorol, fel y dangosir yn Siart 25. Mae derbyniadau yn y garfan oedran hon wedi gostwng 37.1 y cant dros y degawd diwethaf. Yn 2023/24, roedd 1,276 (34.5 y cant) o'r derbyniadau hyn yn cynnwys cod alcohol-benodol yn y sefyllfa sylfaenol.

Derbyniwyd cyfanswm o 2,453 o gleifion unigol yn 2023/24, ac o'r rhain cafodd 931 (38.0 y cant) dderbyniad a oedd yn cynnwys cod alcohol-benodol yn y sefyllfa sylfaenol. Roedd mwyafrif y cleifion, 64.2 y cant, yn ddynion, cyfran sydd wedi aros yn gymharol sefydlog dros y saith mlynedd ddiwethaf. Roedd oedolion 25-49 oed yn cynrychioli 30.2 y cant o'r holl unigolion a dderbyniwyd oherwydd cyflyrau alcohol-benodol yn 2023/24. Mae Siart 24 yn dangos unigolion 25-49 oed a dderbyniwyd i'r ysbyty yn 2023/24 gyda chyflwr alcohol-benodol yn ôl rhywedd a grŵp oedran.¹⁴



Siart 24: Oedolion 25-49 oed sy'n byw yng Nghymru a dderbyniwyd i'r ysbyty gyda chyflwr alcohol-benodol, yn ôl rhywedd, oedran a safle diagnostig cyflwr sy'n gysylltiedig ag alcohol, 2023/24

¹⁴ Lle derbyniwyd unigolyn fwy nag unwaith yn y flwyddyn, cynhwyswyd sefyllfa ddiagnostig y derbyniad cyntaf



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024


Siart 25: Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol ymhlith oedolion 25-49 oed sy'n byw yng Nghymru, yn ôl blwyddyn a rhywedd, 2014/15 i 2023/24

11.2 Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon ymhlith oedolion 25-49 oed

Roedd 2,065 o dderbyniadau a oedd yn ymwneud â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ar gyfer y garfan oedran hon yn 2023/24, gan gynnwys 1,634 o unigolion. Mae'r niferoedd hyn yn cynrychioli gostyngiad o 12.7 y cant mewn derbyniadau ac 11.6 y cant yn yr unigolion a dderbyniwyd o gymharu â 2022/23.

Roedd derbyniadau ymhlith y rhai 25-49 oed yn cyfrif am 53.6 y cant o'r holl dderbyniadau hynny ar gyfer cyflyrau cysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon yn 2023/24, cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y rhaniad rhywedd yn y garfan oedran hon yn sylweddol wahanol i'r hyn a ganfuwyd ymhlith pobl iau, gyda dynion yn cyfrif am 64.5 y cant o'r rhai a dderbyniwyd yn 2023/24.


O gymharu â blynyddoedd blaenorol, roedd dosbarthiad y derbyniadau ar sail unigolion yn fwy cyson rhwng bandiau oedran o fewn y garfan hon yn 2023/24, yn enwedig ymhlith menywod. Mae Siart 26 yn dangos nifer yr unigolion sy'n byw yng Nghymru ac a dderbyniwyd i'r ysbyty ar ôl defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2023/24.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 26: Oedolion 25-49 oed sy'n byw yng Nghymru a dderbyniwyd i'r ysbyty gyda chyflwr yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon, yn ôl rhywedd a grŵp oedran, 2023/24

Mae Siart 27 yn dangos nifer y derbyniadau anghyfreithlon yn ymwneud â chyffuriau yn ôl math o sylwedd dros y deng mlynedd ddiwethaf ar gyfer y rhai 25-49 oed. Y grŵp sylweddau mwyaf cyffredin oedd opioidau, sy'n ymwneud â 35.1 y cant o dderbyniadau a oedd yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon. Gostyngodd derbyniadau a oedd yn cynnwys opioidau yn 2023/24 19.9 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a dyma'r isaf a gofnodwyd yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Er y bu gostyngiad bach yn nifer y derbyniadau a oedd yn ymwneud â chocên yn 2023/24, mae derbyniadau wedi parhau i fod yn gymharol sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf ac wedi cynyddu 55.2 y cant ers 2014/15. Mae derbyniadau sy'n cynnwys bensodiasepinau yn parhau i ostwng ac roedd 65.7 y cant yn is na 2014/15 yn y flwyddyn ddiweddaraf.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 27: Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau anghyfreithlon a enwir ymhlith oedolion 25-49 oed, sy'n byw yng Nghymru yn ôl blwyddyn a math o sylwedd, 2023/24¹⁵

11.3 Asesiad gan wasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, oedolion 25-49 oed


Roedd 10,424 o asesiadau o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol ymhlith unigolion 25-49 oed yn 2023/24, gostyngiad o 9.6 y cant ers 2022/23. Roedd yr asesiadau'n cynnwys 9,430 o unigolion unigryw, sef 64.7 y cant o'r holl unigolion a aseswyd yn 2023/24. O'r rhain, roedd 55.0 y cant ohonynt yn fenywod, cynnydd ers y flwyddyn flaenorol. Roedd y band oedran 35-39 yn cynnwys y nifer fwyaf o unigolion a aseswyd ar draws pob band oedran, gyda 2,207 o unigolion (15.2 y cant). Mae Siart 28 yn dangos unigolion a aseswyd gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn 2023/24 yn ôl oedran, rhywedd a'r prif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn broblemus.

¹⁵ Mae'n bosibl bod unigolion wedi'u derbyn ar gyfer mwy nag un grŵp sylweddau a byddent wedi cael eu cynnwys ym mhob grŵp perthnasol.



Siart 28: Oedolion 25-49 oed a aseswyd gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl rhywedd, band oedran a'r prif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn broblemus, 2023/24 ¹⁶

¹⁶ Lle cafodd unigolyn ei asesu fwy nag unwaith, cymerwyd y manylion o'r asesiad cyntaf.



Ffynhonnell: Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 29: Asesiadau camddefnyddio sylweddau ymhlith oedolion 25-49 oed, yn ôl blwyddyn a'r prif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn broblemus, Cymru 2019/20 i 2023/24


Alcohol oedd y sylwedd yr adroddwyd amlaf bod defnydd pobl ohono yn broblemus yn yr asesiad gyda 4,453 o asesiadau, gostyngiad o 13.2 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd cynnydd o 11.1 y cant mewn asesiadau lle nodwyd crac/powdr cocên fel y prif sylwedd yr adroddwyd bod defnydd pobl ohono yn broblemus yn y grŵp oedran hwn. Mae nifer yr asesiadau lle cofnodwyd opiadau fel y prif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn broblemus wedi gostwng 20.7 y cant arall yn y flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiadau bach ond cyson yn nifer yr asesiadau a oedd yn cynnwys amffetaminau bob blwyddyn yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, a gwelwyd gostyngiad o 59.3 y cant dros y cyfnod hwnnw. Gostyngodd nifer yr asesiadau a oedd yn ymwneud â chanabis yn 2023/24 24.0 y cant yn dilyn niferoedd cymharol gyson dros y pum mlynedd ddiwethaf.

12 Oedolyn hŷn 50 oed a throsodd

12.1 Derbyniadau ysbyty ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol, oedolion hŷn

Roedd 8,194 o dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol yn 2023/24 ymhlith oedolion 50 oed neu hŷn. O'r derbyniadau hyn, roedd 1,510 (14.0 y cant) ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol yn y sefyllfa sylfaenol. Derbyniwyd 5,394 o gleifion unigol, ac roedd 1,223 (22.7 y cant) ohonynt wedi'u derbyn oherwydd cyflyrau yn y sefyllfa sylfaenol. Roedd dynion yn cyfrif am 67.7 y cant o dderbyniadau, sy'n gymaradwy â blynyddoedd blaenorol. Roedd y garfan 50+ oed yn cyfrif am 67.0 y cant o'r holl bobl a dderbyniwyd oherwydd cyflyrau alcohol-benodol yn 2023/24, cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.


Mae'r band oedran pum mlynedd sydd â'r nifer fwyaf o unigolion yn cael eu derbyn i'r ysbyty yn dod o fewn y garfan hon, gyda'r rhai 55-59 oed yn cyfrif am 12.9 y cant, neu oddeutu un o bob wyth o'r holl dderbyniadau alcohol-benodol i ysbytai yn 2023/24. Mae Siart 30 yn dangos nifer yr unigolion 50+ oed a dderbyniwyd gyda chyflwr alcohol-benodol mewn unrhyw sefyllfa ddiagnostig yn 2023/24 yn ôl rhywedd a grŵp oedran.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 30: Oedolion hŷn 50+ sy'n byw yng Nghymru a dderbyniwyd i'r ysbyty gyda chyflwr alcohol-benodol, yn ôl band oedran, rhywedd ac oedran 2023/24

Mae Siart 31 yn dangos nifer y derbyniadau sy'n ymwneud â phobl 50 oed neu'n hŷn a oedd yn ymwneud â chyflwr alcohol-benodol yn ôl rhywedd. Ers 2015/16, bu cynnydd o 1.8 y cant yn nifer y derbyniadau a oedd yn cynnwys unigolion dros 50 oed.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 31: Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyflyrau alcohol-benodol ymhlith oedolion hŷn 50+ oed sy'n byw yng Nghymru yn ôl blwyddyn a rhywedd, 2014/15 i 2023/24

12.2 Derbyniadau i ysbytai oherwydd gwenwyno gyda chyffuriau anghyfreithlon mewn oedolion hŷn

Yn 2023/24, roedd 1,149 o dderbyniadau yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon a oedd yn cynnwys 911 o unigolion 50 oed neu hŷn, ychydig yn is na 2022/23 (1,286 o dderbyniadau a 1,011 o unigolion). O'r rhain, roedd 58.3 y cant o'r cleifion yn ddynion. Mae gan ddynion gyfran uwch o dderbyniadau yn y categori oedran hwn ers 2014/15, er bod y gwahaniaeth rhwng y rhywiau wedi gostwng yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd unigolion 50 oed a hŷn yn cyfrif am 29.8 y cant o'r holl rai a dderbyniwyd yn 2023/24 ar ôl defnyddio cyffuriau anghyfreithlon o gymharu â 18.0 y cant 10 mlynedd yn ôl.


O fewn y garfan oedran eang hon, y categori oedran 50-59 a adroddodd y nifer fwyaf o unigolion, sef 16.1 y cant o'r holl unigolion a dderbyniwyd oherwydd cyffuriau anghyfreithlon ar draws pob categori oedran. Gwelir llawer mwy o amrywiad rhwng grŵp oedran ymhlith dynion yn y garfan hon na merched. Mae Siart 32 yn dangos nifer yr unigolion hŷn sy'n byw yng Nghymru ac a dderbyniwyd i'r ysbyty ar ôl defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn 2023/24.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 32: Oedolion hŷn 50+ oed sy'n byw yng Nghymru a dderbyniwyd i'r ysbyty gyda chyflwr yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon, yn ôl rhywedd ac oedran, 2023/24

Mae derbyniadau sy'n cynnwys opioidau yn parhau i fod yn sylweddol uwch na chyffuriau anghyfreithlon eraill, gan gyfrif am bron i hanner (48.9 y cant) y derbyniadau yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon yn y categori oedran hwn. Mae derbyniadau oherwydd opioidau yn y garfan hon wedi gostwng 13.8 y cant yn 2023/24 ond yn parhau i fod yn uwch na 10 mlynedd yn ôl. Mae derbyniadau sy'n cynnwys bensodiasepinau wedi gostwng yn sylweddol dros y deng mlynedd ddiwethaf gyda gostyngiad o 62.3 y cant ers 2014/15 gan gynnwys gostyngiad o 20.9 y cant ers 2022/23. Mae derbyniadau oherwydd canabinoidau a chocên wedi cynyddu'n raddol dros y 10 mlynedd ddiwethaf, er gwaethaf gostyngiad bach yn y flwyddyn ddiweddaraf. Mae Siart 33 yn dangos nifer y derbyniadau a oedd yn ymwneud â phob math o sylweddau yn y categori oedran hwn dros amser.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024

Siart 33: Derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau sy'n ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon ymhlith oedolion hŷn 50+ oed sy'n byw yng Nghymru yn ôl blwyddyn a math o sylwedd, 2014/15 i 2023/24


12.3 Asesiad gan wasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, oedolion hŷn

Cofnodwyd 3,522 o asesiadau ar gyfer unigolion 50 oed a throsodd ar Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau yn 2023/24, gostyngiad bach o gymharu â 2022/23 (3,715 o asesiadau). Roedd yr asesiadau hyn yn cynnwys 3,219 o unigolion unigryw, ac roedd 52.5 y cant ($n=1,689$) ohonynt yn ddynion. Roedd mwyafrif sylweddol yr unigolion a aseswyd o fewn y garfan oedran hon o fewn y grŵp oedran 50-59 ($n=2,191$). Mae Siart 34 yn dangos unigolion 50 oed a throsodd a aseswyd gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol yng Nghymru yn ôl oedran, rhywedd a'r prif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn problemus.



Siart 34: Oedolion hŷn (50+ oed) a aseswyd gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn ôl rhywedd, band oedran a'r prif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn broblemus, 2023/24

Fel y dangosir yn Siart 35, alcohol oedd y sylwedd yr adroddwyd bod defnydd pobl ohono yn broblemus a gyflwynodd amlaf, sef 66.4 y cant o asesiadau (n=2,337). Mae hyn yn cymharu â 12.0 y cant (n=424) o asesiadau lle nodwyd mai opioidau oedd y prif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn broblemus. Er bod asesiadau ar gyfer alcohol ac opioidau wedi gostwng 13.2 a 7.4 y cant yn y drefn honno yn 2023/24, mae asesiadau ar gyfer cocên a chrac cocên wedi cynyddu 28.3 y cant yn y categori oedran hwn dros yr un cyfnod. Mae asesiadau ar gyfer canabis, amffetaminau ac ecstasi ymhlith oedolion hŷn 50+ oed yn parhau i ostwng yn raddol.



Ffynhonnell: Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2024


Siart 35: Asesiadau camddefnyddio sylweddau ymhlith oedolion hŷn 50+ oed, yn ôl y prif sylwedd yr adroddwyd bod eu defnydd ohono yn broblemus, Cymru 2019/20 i 2023/24

13 Defnydd hunan-gofnodedig o gyffuriau anghyfreithlon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: oedolion 16-59 oed

Fel arfer, cynhelir Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) yn flynyddol, ond ni chyhoeddwyd unrhyw ddata ar gyfer 2020-21 na 2021-22.¹⁷ Er mai ei brif ddiben yw cynnal arolwg o sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth ar eu profiadau o droseddu, mae hefyd yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â defnydd unigolion eu hunain o gyffuriau anghyfreithlon a'u hagweddau tuag atynt. Dywedodd y CSEW, er ei fod yn cael ei gydnabod fel mesur da o'r defnydd o gyffuriau adloniant.....nid yw'n rhoi sylw da i'r boblogaeth broblemus o ddefnyddio cyffuriau, gan ei bod yn bosibl nad yw llawer o ddefnyddwyr o'r fath yn rhan o'r boblogaeth breswyl mewn aelwydydd a gwmpesir gan yr arolwg.”¹⁸ *Nid oedd unrhyw ddata newydd ar gamddefnyddio cyffuriau gan y CSEW ar gael ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, felly ni ellid diweddararu'r adran hon.*

¹⁷Swyddfa Ystadegau Gwladol Canfyddiad camddefnyddio cyffuriau o CSEW 2022 i 2023. Ar gael yn <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2023>

¹⁸ Swyddfa Gartref 2018 : Drug misuse: Findings from the 2018/19 Crime Survey for England and Wales, ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/832533/drug-misuse-2019-hosb2119.pdf



Siart 36: Canran yr oedolion 16-59 oed yng Nghymru sy'n hunan-gofnodi eu bod wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon dethol yn ystod y 12 mis diwethaf, 2014/15 i 2022/23

Mae data o'r CSEW ar gyfer 2022/23 yn awgrymu bod y defnydd o gyffuriau anghyfreithlon wedi cynyddu o 8.5 y cant yn 2019/20 i 9.3 y cant. Mae cyfran yr oedolion sy'n hunan-gofnodi eu bod wedi defnyddio sylweddau anghyfreithlon yng Nghymru yn gymaradwy â Lloegr yn gyffredinol (9.5 y cant), yn enwedig y Gogledd Orllewin (8.9 y cant).

O gymharu â 2015/16, mae'r defnydd hunan-gofnodedig o:

- Unrhyw gyffur Dosbarth A wedi cynyddu o 2.4 y cant i 2.8 y cant
- Cocên Powdr wedi cynyddu o 1.8 y cant i 2.2 y cant
- Canabis wedi cynyddu o 6.2 y cant i 7.2 y cant

Yng Nghymru, mae cyfran yr oedolion a hunangofnododd eu bod yn defnyddio cyffuriau lleddfu poen heb bresgripsiwn yn unig am resymau meddygol wedi gostwng o 10.7 y cant yn 2015/16 i 5.0 y cant yn 2022/23, sy'n gymaradwy â Lloegr yn gyffredinol yn 2022/23 (4.9 y cant).

14 Defnyddio cyffuriau trwy chwistrellu: ymddygiadau risg a firsau a gludir yn y gwaed

14.1 Pobl sy'n chwistrellu cyffuriau ac sy'n defnyddio Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrellau

Yn 2010, cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, Gronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD) ym mhob Rhaglen Nodwyddau a Chwistrellau (NSP) arbenigol yn y sector statudol a gwirfoddol ledled Cymru. Ers mis Ebrill 2014, mae darpariaeth fferyllfeydd cymunedol o offer chwistrellu hefyd wedi'i gynnwys. Mae manylion am sut y cesglir data drwy'r HRD a'r adroddiadau gweithgaredd HRD diweddaraf ar gael ar-lein.¹⁹

Ystyriwyd bod unigolyn yn ddefnyddiwr 'rheolaidd' o NSPs yng Nghymru os oeddent:

- Wedi cael mynediad at wasanaethau NSP o leiaf ddwywaith neu fwy yn y flwyddyn gyfredol
- Wedi cael mynediad at wasanaethau NSP ar gyfer chwistrellu cyffuriau gwella delwedd a pherfformiad (IPEDs) a chael mynediad at wasanaethau o leiaf unwaith yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol

Gwneir y gwahaniaeth hwn i gyfyngu ar yr effaith ar ddata unigolion a all ddefnyddio gwahanol fanylion dynodi wrth gyflwyno ar gyfer offer chwistrellu neu sy'n bobl sy'n chwistrellu cyffuriau yn anaml.


Adroddir data yn ôl grŵp sylweddau: opioidau, symbylyddion ac IPEDs.^{20,21} Gan fod chwistrellu a defnydd problemus o gyffuriau yn aml yn golygu defnyddio mwy nag un sylwedd, gellir cynnwys unigolion mewn grwpiau sylweddau lluosog.

Yn 2023/24, defnyddiodd cyfanswm o 16,175 o unigolion wasanaethau NSP o leiaf unwaith yng Nghymru, cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (15,331 o unigolion). O'r rhain, diffiniwyd 8,319 fel pobl sy'n chwistrellu cyffuriau (PWID) ac sy'n defnyddio gwasanaethau NSP yn rheolaidd. Dim ond unwaith yn 2023/24 yr aeth y 7,856 o unigolion eraill (48.6 y cant) i wasanaeth NSP. Mae Siart 37 yn dangos nifer yr unigolion rheolaidd a ddefnyddiodd wasanaethau NSP rhwng 2019/20 a 2023/24 yn ôl oedran a grŵp sylweddau.

¹⁹ Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cronfa ddata lleihau niwed – Gweithgarwch rhaglenni nodwyddau a chwistrellau yng Nghymru 2021-22. Ar gael yn <https://icc.gig.cymru/newyddion1/nifer-y-bobl-syn-mynychu-rhaglenni-nodwyddau-a-chwistrellau-diogel-yn-gostwng-27-y-cant/>

²⁰ Mae symbylyddion yn cynnwys amffetaminau, crac a chocên, meffedron a sylweddau cathinone eraill.

²¹ Yn cynnwys Steroidau Anabolig ac Androgenaidd chwistrelladwy a thrwy'r geg, Peptidau (gan gynnwys Hormon Twf), Melanotan, Ffactorau Twf Inswlin ac Inswlin



Ffynhonnell: Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, 2024

Siart 37: Pobl sy'n chwistrellu cyffuriau ac sy'n defnyddio Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrellau yn rheolaidd yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran, blwyddyn a grŵp sylweddau, 2019/20 i 2023/24²²

14.1.1 Pobl ifanc hyd at 25 oed

Yn 2023/24, roedd pobl ifanc yn cynrychioli 4.2 y cant (n= 351) o'r holl unigolion a oedd yn mynychu gwasanaethau NSP yn rheolaidd. Mae'r gyfran hon yn parhau'n sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, gan ostwng o 5.9 y cant yn 2019/20. O'r holl fynychwyr gwasanaeth NSP rheolaidd o dan 25 oed:

- Roedd 90.6 y cant (n = 318) o'r rhain yn ddynion
- Adroddodd 86.3 y cant (n=303) ddefnydd o gyffuriau IPED
- Dywedodd 13.4 y cant (n=47) eu bod yn defnyddio opioidau
- Dywedodd 6.8 y cant (n=24) eu bod yn defnyddio symbylyddion

14.1.2 Oedolion 25-49 oed


Pobl 25-49 oed sy'n chwistrellu cyffuriau yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n defnyddio NSPs yn rheolaidd yng Nghymru, gyda chyfanswm o 6,707 o unigolion (80.6 y

²² Diffinnir defnyddiwr rheolaidd fel unigolyn a ddefnyddiodd raglen nodwyddau a chwistrellau o leiaf ddau neu fwy o weithiau mewn blwyddyn galendr benodol neu a adroddodd ei fod wedi defnyddio IPED ac a ddefnyddiodd NSP yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol.

cant) yn eu defnyddio yn 2023/24, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (81.8 y cant). O'r cyfanswm hwn:²³

- roedd 88.0 y cant (n=5,904) ohonynt yn ddynion
- Adroddodd 56.8 y cant (n= 3,802) ohonynt ddefnydd o gyffuriau IPED
- Dywedodd 38.0 y cant (n=2,548) ohonynt eu bod yn defnyddio opioidau
- Dywedodd 12.5 y cant (n= 840) ohonynt eu bod yn defnyddio symbylyddion

Roedd cyfran y PWID gwrywaidd i fenywaidd yn amrywio yn ôl y math o brif gyffur fel y dangosir yn Siart 38.



Ffynhonnell: Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, 2024

Siart 38: Nifer y bobl sy'n chwistrellu cyffuriau, ac sy'n defnyddio gwasanaethau NSP yn rheolaidd yn ôl rhywedd, grŵp oedran a grŵp sylweddau, Cymru, 2023/24

14.1.3 Oedolion hŷn 50+

Roedd 1,261 o unigolion 50 oed neu hŷn yn mynychu gwasanaethau'r NSP yn rheolaidd yn 2023/24, sef 15.2 y cant o'r cyfanswm. Mae'r gyfran hon yn parhau i gynyddu o 5.5 y cant yn 2015/16. O'r 1,261 o oedolion hŷn sy'n defnyddio NSPs:

²³ Gall unigolion sy'n adrodd am ddefnyddio cyffuriau lluosog gael eu cynnwys mewn mwy nag un grŵp sylweddau.

- roedd 89.3 y cant (n=1,126) ohonynt yn ddynion
- Dywedodd 36.6 y cant (n=461) ohonynt eu bod yn defnyddio cyffuriau IPED
- Dywedodd 47.1 y cant (n=594) ohonynt eu bod yn defnyddio opioïdau
- Dywedodd 13.6 y cant (n=171) ohonynt eu bod yn defnyddio symbylyddion

14.2 Ymddygiadau risg ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau

Mae chwistrellu cyffuriau, yn enwedig wrth rannu offer chwistrellu, yn uniongyrchol (rhannu nodwyddau a chwistrellau) ac yn anuniongyrchol (rhannu offer arall sy'n gysylltiedig â chwistrellu gan gynnwys llwyau/popty, ffilterau, dŵr), yn cael effaith amlwg ar nifer yr achosion o heintiau feirysol a gludir yn y gwaed, gan gynnwys hepatitis B, hepatitis C, HIV a heintiau bacterol. Mae tystiolaeth ar rannu uniongyrchol ac anuniongyrchol a phrofion a chyffredinolrwydd feirysau a gludir yn y gwaed (BBV) ar gael o ddwy ffynhonnell: yr Arolwg Monitro Dienw Datgysylltiol (UAM) o Bobl sy'n Chwistrellu Cyffuriau (PWID), a modiwl Feirysau a Gludir yn y Gwaed Cronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD) Iechyd Cyhoeddus Cymru.

14.2.1 Arolwg Monitro Dienw Digyswllt o bobl sy'n chwistrellu cyffuriau

Mae'r Arolwg Monitro Dienw Digyswllt (UAM) o Bobl sy'n Chwistrellu Cyffuriau (PWID), yn arolwg blynyddol o PWID sy'n defnyddio gwasanaethau cyffuriau arbenigol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gydlynir gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA).²⁴ Mae'r UAM yn cynnal prawf smotyn gwaed sych ar gyfer hepatitis B ac C a HIV, yn ogystal â gofyn i gyfranogwyr gwblhau arolwg dienw ar ymddygiadau risg. Yn 2023, roedd 124 o gyfranogwyr arolwg UAM yng Nghymru.²⁵ Yn 2020, roedd recriwtio i'r Arolwg UAM yn gyfyngedig oherwydd pandemig COVID-19 a arweiniodd at newid ym mhroffil daearyddol a demograffig y rhai a gymerodd ran. Mae nifer yr ymatebwyr yn parhau i fod yn llawer is na chyn y pandemig COVID-19.

Rhannu uniongyrchol ac anuniongyrchol

Yn 2023, dywedodd cyfanswm o 42 y cant o ymatebwyr eu bod wedi rhannu offer chwistrellu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (paraffernalia chwistrellu gan gynnwys nodwyddau, chwistrelli, ffilterau a phoptai a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan rywun arall) yn ystod y 28 diwrnod diwethaf, cynnydd o 26 y cant yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, dim ond 53 o unigolion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn.

²⁴ Mae rhagor o wybodaeth a data o'r Arolwg Monitro Dienw Digyswllt ar gael yn: [Unlinked Anonymous Monitoring \(UAM\) Survey of HIV and viral hepatitis among people who inject drugs \(PWID\): 2024 report - GOV.UK](#)

²⁵ Ni atebwyd pob cwestiwn gan yr holl gyfweleion.

Nifer yr achosion o haint feirws a gludir yn y gwaed ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau

Hepatitis B

Ni ddarparwyd canran positifrwydd Hepatitis B ar gyfer Cymru yn 2023 ar adeg cyhoeddi. Yn 2022, darparodd cyfanswm o 5 o 96 o ymatebwyr yng Nghymru smotiau gwaed sych a brofodd yn bositif am hepatitis B (antigen craidd hepatitis B), cyfradd o 5.2 y cant, i lawr o 7.8 y cant yn 2020. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r chwe blynedd ddiwethaf, lle mae'r gyfran positifrwydd gyfartalog wedi bod yn 8.4 y cant. Nodwyd bod 58.6 y cant (n= 58/99) wedi cael brechiad hepatitis B ymhlith cyfranogwyr UAM yng Nghymru yn 2022, sy'n is na blynyddoedd blaenorol.

Hepatitis C

Yn 2023, y gyfran â chanlyniadau profion adweithiol ar gyfer gwrthgyrff hepatitis C oedd 51 y cant (n=61/120 o ymatebwyr). Mae cyfraddau heintio ar gyfer hepatitis C wedi cynyddu yng Nghymru dros y degawd diwethaf, o 26 y cant yn 2010. Y gobaith yw y bydd y duedd hon yn cael ei gwrthdroi yn y blynyddoedd i ddod, yn dilyn cyflwyno triniaeth hynod effeithiol, sydd ar gael ac yn oddefadwy, ynghyd â chyflwyno profion optio allan yn y gymuned arferol, diagnosis ac atgyfeirio am driniaeth.

HIV

Ni ddarparwyd positifrwydd HIV ar gyfer Cymru yn 2023 ar adeg cyhoeddi. Yn 2022, roedd cyfradd haint HIV yn 1.0 y cant ymhlith y rhai o Gymru a gymerodd ran yn yr UAM, cynnydd o 0.93 y cant o'r hyn a gofnodwyd yn 2019. Yn ogystal â data o'r UAM, mae Public Health England yn adrodd ar nifer y diagnosisau newydd o HIV yn y DU a'r gwledydd cyfansoddol yn flynyddol, ynghyd â'r rheswm tebygol dros ddod i gysylltiad â'r feirws lle bo'n hysbys. Yn 2022, roedd 101 o achosion newydd o HIV ymhlith trigolion Cymru. Roedd data datguddiad tebygol yn dangos bod <5 o'r achosion newydd yn 2022 wedi'u hadrodd i fod o ganlyniad i chwistrellu cyffuriau.

14.2.2 Cronfa Ddata Lleihau Niwed: Modiwl Feirysau a Gludir yn y Gwaed

Yr ail ffynhonnell ddata ar haint feirysau a gludir yn y gwaed ymhlith PWID yw modiwl Feirysau a Gludir yn y Gwaed Cronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD) Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r system wyliadwriaeth genedlaethol hon yn cofnodi'r holl weithgarwch ar lefel cleifion sy'n ymwneud â feirysau a gludir yn y gwaed mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau cymunedol cysylltiedig, o sgrinio i ganlyniadau triniaeth dros amser. Fe'i datblygwyd i ategu a chefnogi gweithrediad sgrinio optio allan arferol ledled Cymru fel rhan o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau dileu Hepatitis C Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae profion BBV a gofnodwyd yn yr HRD wedi cynyddu ers y pandemig. Yn 2023/24 roedd:

- Profwyd 5,950 o unigolion am hepatitis C o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol, ac roedd gan 4,279 ohonynt ganlyniadau prawf gwrth-HCV dilys. O'r rhain, roedd 9.9 y cant (n= 422) wedi canfod gwrthgyrff (adweithiol). Ymhlith yr unigolion a ddywedodd eu bod yn 'wedi chwistrellu cyffuriau' roedd y gyfradd yn 24.6 y cant
- Profodd 4,991 o unigolion am hepatitis B. Llai nag 1 y cant o unigolion a gafodd eu sgrinio'n bositif am antigen arwyneb hepatitis B (HBsAg)
- Profwyd 5,042 o unigolion am HIV. Sgriniodd llai nag 1 y cant o'r unigolion hyn yn bositif. Mae unrhyw unigolyn sy'n profi'n bositif am wrthgyrff HIV, sy'n arwydd o haint, yn cael ei atgyfeirio ar unwaith i driniaeth glinigol arbenigol

14.3 Amcangyfrifon o ddefnydd problemus o gyffuriau yng Nghymru


Yng Nghymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal amcangyfrif blynyddol o ddefnydd problemus o gyffuriau (PDU) gan ddefnyddio diffiniad a addaswyd gan y Ganolfan Fonitro Ewropeaidd ar Gyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau (EMCDDA) fel “defnyddio cyffuriau chwistrellu neu ddefnydd hir neu reolaidd o opioidau, cocên a/neu amffetaminau [gan gynnwys sylweddau tebyg i amffetaminau]”. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyhoeddi amcangyfrif newydd o PDU. Mae'r prif ffigurau ar gyfer amcangyfrifon defnydd cyffuriau problemus yng Nghymru yn 2021-22, gan gynnwys poblogaethau nad ydynt mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau, yn awgrymu mai cyfanswm nifer y defnyddwyr cyffuriau problemus yn y cyfnod oedd 51,110 (cyfwng hyder 95% (CI) 38,100 – 68,340). Rhoddir manylion y dulliau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r amcangyfrif PDU hwn ar gyfer Cymru yn Atodiad G.

15 Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol

15.1 Marwolaethau alcohol-benodol yn ôl blwyddyn cofrestru

Fel y disgrifir yn Atodiad B, mae dau ddull o gyfrifo marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol: un sy'n cael ei ddefnyddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a'r llall sy'n defnyddio Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol (AAF). Mae'r is-adran hon o farwolaethau alcohol-benodol yn disgrifio marwolaethau fesul blwyddyn fel rhai a gyfrifwyd gan ddefnyddio data'r SYG. Mae hyn yn caniatáu cymharu ag adroddiadau mewn blynyddoedd blaenorol ac â ffigurau o wledydd eraill y DU. Yn ddiweddar, cafwyd diweddariad i'r diffiniad o farwolaeth alcohol-benodol o'i gymharu â marwolaeth sy'n gysylltiedig ag alcohol, a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn mewn blynyddoedd blaenorol. Cyflwynir y ddau yma er parhad. Bydd is-adrannau dilynol yn cyflwyno ffigurau manylach a gynhyrchwyd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) gan ddefnyddio'r dull AAF.


Gan ddefnyddio diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn 2023 roedd 683 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol a 562 o farwolaethau alcohol-benodol wedi'u cofrestru yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 10.5 a 15.6 y cant yn y drefn honno o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r marwolaethau alcohol-benodol, roedd 64.8 y cant (n=364) o farwolaethau yn ymwneud â dynion. Mae Siart 39 yn dangos nifer y marwolaethau alcohol-benodol a gofrestrwyd yng Nghymru ym mhob un o'r deng mlynedd ddiwethaf hyd at 2023 gan ddefnyddio dull y SYG fesul blwyddyn.



Siart 39: Nifer y marwolaethau alcohol-benodol yn ôl blwyddyn cofrestru marwolaeth yng Nghymru 2014-2023

15.2 Cyfraddau marwolaethau alcohol-benodol yng Nghymru yn ôl rhywedd ac ardal breswyl Bwrdd Iechyd


Mae'r cyfartaledd treigl tair blynedd o farwolaethau o achosion alcohol-benodol dros y cyfnod adrodd pum mlynedd ddiweddaraf yn dangos bod yr EASR o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu rhwng 2017-19 a 2021-23. Yn y flwyddyn ddiweddaraf, y cyfartaledd treigl tair blynedd EASR yw 16.0 o farwolaethau alcohol-benodol fesul 100,000 o'r boblogaeth. Mae'r gyfradd hon wedi bod yn cynyddu'n raddol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, fel y dangosir yn Siart 40.



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2023

Siart 40: Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd o farwolaethau alcohol-benodol a gofrestrwyd mewn blwyddyn benodol, Cymru, cyfartaleddau treigl tair blynedd, yn ôl blynnyddoedd a rhywedd

Roedd amrywiad daearyddol sylweddol yn y cyfartaledd treigl tair blynedd o farwolaethau alcohol-benodol ar gyfer 2021-23, fel y gwelir yn Siart 41. Mae tueddiadau'n parhau i fod yn debyg i flynyddoedd blaenorol, ac eithrio Hywel Dda sydd bellach yn uwch na chyfartaledd Cymru.




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2023

Siart 41: Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd o farwolaethau alcohol-benodol, Cymru, cyfartaleddau treigl tair blynedd, marwolaethau a gofrestrwyd yn 2021-23, fesul bwrdd iechyd

15.3 Marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol


Ar gyfer 2021-23, yr EASR o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yng Nghymru oedd 54.9 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth, cynnydd o 3.4 y cant o'i gymharu â 2020-22. Dangosir cyfraddau cyfartalog treigl marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yn Siart 42. Cynyddodd yr EASR ar gyfer 2021-23 ymhlith dynion a menywod, 4.1 a 2.8 y cant yn y drefn honno o gymharu â'r cyfnod tair blynedd flaenorol (2020-22).



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2023

Siart 42: Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol, dull AAF, Cymru, cyfartaleddau treigl tair blynedd, yn ôl rhywedd a'r flwyddyn y cofrestrwyd y farwolaeth, 2017-19 i 2021-23

Mae Siart 43 yn dangos marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol fesul bwrdd iechyd ar gyfer y cyfnod cyfartalog treigl tair blynedd 2021-23. Mae'r patrwm ymhlith byrddau iechyd yn debyg i'r patrwm ar gyfer marwolaethau alcohol-benodol a ddisgrifiwyd uchod ac i flynyddoedd blaenorol.



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2023

Siart 43: Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol, dull AAF, Cymru, cyfartaledd treigl tair blynedd, marwolaethau a gofrestrwyd yn 2021-23, fesul bwrdd iechyd


16 Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn adrodd ar ddau brif fesur mewn perthynas â marwolaethau oherwydd cyffuriau. 'Marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau' sy'n cynnwys pob marwolaeth lle mae'r achos sylfaenol yn cyfeirio at ICD-10 sy'n ymwneud â chyffuriau cyfreithlon a chyffuriau anghyfreithlon (heb gynnwys alcohol a thybaco). 'Marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau' yw'r is-set o farwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau sy'n ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon yn unig. Ceir disgrifiad manylach o'r mesurau hyn yn Atodiad D. Oherwydd oedi wrth adrodd am farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, mae'r holl ffigurau yn yr adran hon ar gyfer marwolaethau a gofrestrwyd mewn blwyddyn benodol ac nid blwyddyn y farwolaeth.²⁶

16.1 Marwolaethau trwy wenwyno gan gyffuriau a marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn ôl rhywedd a grŵp oedran

Yn 2023, cofrestrwyd 377 o farwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru, cynnydd sylweddol o 18.6 y cant ers y flwyddyn galendr flaenorol. O'r holl farwolaethau trwy wenwyno gan gyffuriau, nodwyd bod 253 (67.1 y cant) wedi marw o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, sydd wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd cynnydd mwy o fewn marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau a oedd yn farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau o gymharu â'r rhai nad oeddent yn farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau.


²⁶ Iechyd Cyhoeddus Cymru: Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau 2022. Ar gael yn: <https://phw.nhs.wales/publications/publications1/harm-reduction-database-wales-drug-related-mortality/>



Siart 44: Nifer y marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ôl blwyddyn cofrestru

16.2 Marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn ôl rhywedd a grŵp oedran

Fel y dangosir yn Siart 45, y grŵp oedran mwyaf cyffredin ar gyfer marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yw rhwng 40 a 49, sy'n cynrychioli 35.2 y cant o'r holl farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau. Mae nifer y marwolaethau a oedd yn ymwneud ag unigolion dan 29 oed wedi gostwng i'r pwynt isaf yn y pum mlynedd ddiwethaf, er bod marwolaethau ymhlith unigolion rhwng 30 a 39 oed wedi cynyddu ychydig. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd mwy o farwolaethau yn 2023 a oedd yn ymwneud â dynion na menywod. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau ymhlith dynion rhwng 40 a 69 oed, tra bod menywod yn parhau i fod yn gymharol sefydlog ar draws pob oedran.



Siart 45: Nifer y marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ôl grŵp oedran penodol a rhywedd ar gyfer marwolaethau a gofrestrwyd yn ôl blwyddyn, 2019-2023


16.3 Marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau yn ôl y sylweddau a adroddwyd

Gan fod y diffiniad o 'farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau' yn eithrio sylweddau nad ydynt yn cael eu rheoli o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, mae'r adran hon yn edrych ar bob marwolaeth o wenwyno gan gyffuriau. Gellir cofnodi mwy nag un sylwedd ar gyfer pob marwolaeth. Mae'r ffigurau yn yr adran hon yn ymwneud â'r holl gyffuriau a gofnodwyd ac felly gellir cynrychioli marwolaeth mewn mwy nag un grŵp sylweddau.

Marwolaethau sy'n cynnwys opioidau yw'r grŵp sylweddau mwyaf cyffredin o bell ffordd mewn perthynas â marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau, yn bennaf marwolaethau sy'n ymwneud ag opioidau eraill, fel y dangosir yn Siart 47. Mae nifer y marwolaethau yn ymwneud â heroin/morffin yn 2023 wedi cynyddu'n sylweddol, o 64 o farwolaethau a gofrestrwyd yn 2022 i 102 yn 2023 (cynydd o 59.3 y cant). Dyma'r ail nifer uchaf o farwolaethau a gofnodwyd ar gyfer heroin/morffin. Mae nifer y marwolaethau yn ymwneud ag opioidau eraill yn 2023 wedi aros yn sefydlog ers y flwyddyn flaenorol ar 87.

Mae nifer y marwolaethau yn ymwneud â chocên wedi cynyddu o 52 yn 2022 i 65 yn 2023, y nifer uchaf ar gofnod ar gyfer y sylwedd hwn. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y marwolaethau yn ymwneud â bensodiasepinau (53 i 67) a gwrth-

iselyddion (34 i 51), hefyd dyma'r nifer uchaf o farwolaethau a gofnodwyd ar gyfer y ddau grŵp sylweddau.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024

Siart 46: Nifer y marwolaethau o wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru lle cofnodwyd sylweddau dethol, marwolaethau a gofrestrwyd rhwng 2014 a 2023

16.4 Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau fesul ardal Bwrdd Iechyd


Y gyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau a gofrestrwyd yn 2023 yng Nghymru oedd 8.8 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth o gymharu â 7.1 yn 2022. Yn 2023, cofnodwyd y gyfradd uchaf o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gyda chyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran o 12.45 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Roedd cyfradd y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd fel y dangosir yn Siart 47.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024

Siart 47: Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau a gofrestrwyd yng Nghymru, fesul Bwrdd Iechyd a blwyddyn, 2019 i 2023, gyda'r gyfradd genedlaethol ar gyfer 2023 (coch)

Mae Siart 48 yn dangos yr EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer 2021-23 fesul awdurdod lleol.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024


Siart 48: Cyfradd Safonedig yn ôl Oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru fesul Awdurdod Lleol ar gyfer 2023, gyda'r cyfraddau cenedlaethol ar gyfer Cymru (coch)

17 Troseddau cyffuriau a gofnodwyd gan yr heddlu a phurdeb cyffuriau a atafaelwyd gan yr heddlu: pob oed

17.1 Troseddau cyffuriau a gofnodwyd yng Nghymru

Cofnododd Heddluoedd Cymru gyfanswm o 7,021 o droseddau cyffuriau yng Nghymru yn 2023/24, gostyngiad o 15.2 y cant o gymharu â 2022/23, gostyngiad a welwyd ar draws holl ardaloedd Cymru ac eithrio Gwent.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cofnododd De Cymru y nifer fwyaf o droseddau cyffuriau gyda 2,793 o droseddau wedi'u cofnodi, gostyngiad o 11.6 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwent oedd yr unig ranbarth Heddlu i weld cynnydd mewn troseddau cyffuriau, gyda chynnydd o 9.0 y cant. Dangosir nifer y troseddau cyffuriau a gofnodwyd gan Heddluoedd Cymru dros y pum mlynedd ddiwethaf yn Siart 49.²⁷




Siart 49: Nifer y troseddau cyffuriau a gofnodwyd gan heddluoedd yng Nghymru fesul blwyddyn a rhanbarth heddlu, 2019/20 i 2023/24

Fodd bynnag, mae nifer y trigolion yn y rhanbarthau heddlu hyn yn amrywio'n sylweddol ac, felly, mae cyfradd y troseddau cyffuriau sy'n digwydd ym mhob ardal yn fesur cymaradwy mwy priodol. Yn 2023/24, cofnodwyd y gyfradd uchaf fesul 1,000 o'r boblogaeth o droseddau cyffuriau yn Nyfed-Powys, gyda 3.0 o

²⁷ Daeth y data ar gyfer gweithgarwch yr heddlu yng Nghymru o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae ar gael yn <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/policeforceareadatatables>

droseddau cyffuriau wedi'u cofnodi fesul 1,000 o'r boblogaeth, i lawr o 4.4 fesul 1,000 o'r boblogaeth y flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd y gyfradd isaf yng Ngogledd Cymru, gyda 1.8 trosedd fesul 1,000 o'r boblogaeth. Cyfradd gyffredinol y troseddau cyffuriau a gofnodwyd ar gyfer Cymru oedd 2.2 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Dangosir cyfradd y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fesul blwyddyn ac ardal Heddlu yng Nghymru yn Siart 50.



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2024

Siart 50: Cyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth o droseddau cyffuriau a gofnodwyd gan Heddluoedd Cymru fesul blwyddyn a rhanbarth heddlu, 2019/20 i 2023/24, gyda chyfradd gyfartalog Cymru (coch)

17.2 Atafaeliadau cyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru


Nid oedd unrhyw ddata wedi'i ddiweddararu ar atafaeliadau cyffuriau anghyfreithlon ar gael o'r flwyddyn flaenorol ar adeg cyhoeddi.

Roedd 7,449 o atafaeliadau cyffuriau anghyfreithlon gan Heddluoedd Cymru yn 2022/23, gostyngiad o 7 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o 2.4 atafaeliad fesul 1,000 o boblogaeth Cymru, gostyngiad o 2.6 fesul 1,000 o'r boblogaeth y flwyddyn flaenorol. Cyfradd yr atafaeliadau yn Lloegr oedd 2.7 fesul 1,000 o'r boblogaeth. O'r holl atafaeliadau yng Nghymru, roedd 24.6 y cant ($n = 1,835$) yn ymwneud â sylweddau Dosbarth A.

Roedd y mwyafrif, 70.0 y cant, o atafaeliadau yn ymwneud â chanabis (n = 5,215), gyda 21.0 y cant pellach o'r holl atafaeliadau yn cyfrif am gocên neu grac cocên (n = 1,561), 4.7 y cant yn cyfrif am heroin a 4.6 y cant yn cyfrif am amffetaminau.


Heddlu De Cymru oedd yn cyfrif am 38.2 y cant o'r holl atafaeliadau yng Nghymru. Cofnododd Heddlu De Cymru hefyd gyfrannau uwch o atafaeliadau o gyffuriau Dosbarth A gan gynnwys 59.4 y cant o'r holl atafaeliadau heroin a 44.2 y cant o'r holl atafaeliadau cocên yn 2022/23.

Roedd Cymru yn cyfrif am 3.9 y cant o atafaeliadau cyffuriau a ddigwyddodd yng Nghymru a Lloegr yn 2022/23. Dangosir nifer yr atafaeliadau a gofnodwyd gan heddluoedd Cymru ar gyfer rhai cyffuriau yn Siart 51.



Siart 51: Nifer yr atafaeliadau gan Heddluoedd Cymru, 2022/23, cyffuriau dethol

Mae Siart 52 yn dangos cyfradd yr atafaeliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer pob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru a chyfartaledd Cymru rhwng 2018/19 a 2022/23.




Siart 52: Y gyfradd atafaeliadau cyffuriau anghyfreithlon gan Heddluoedd Cymru fesul 1,000 o'r boblogaeth, yn ôl rhanbarth heddlu a chyfartaledd Cymru (coch), 2018/19 i 2022/23

17.3 Pris a phurdeb cyffuriau anghyfreithlon dethol – DU

Mae UK Focal Point yn adrodd ar bris a phurdeb cyffuriau dethol, sy'n darparu data ar dueddiadau cyffuriau i'r Ganolfan Fonitro Ewropeaidd ar Gyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau (EMCDDA).²⁸ Yn y cyd-destun hwn, mae purdeb cyffur yn disgrifio i ba raddau y mae swm o'r cyffur wedi aros yn rhydd rhag sylweddau eraill y gellir eu hychwanegu i gynyddu'r swm ac felly'r gwerth ailwerthu. Cyfrifir prisiau ar sail data gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac fe'u haddasir i adlewyrchu gwahanol lefelau o burdeb ar wahanol adegau. Nid yw'r data hyn wedi'i ddadansoddi fesul rhanbarth ar hyn o bryd, felly mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr adran hon yn ymwneud â'r DU gyfan. *Cyhoeddwyd y data swyddogol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pris a phurdeb yn 2020 ac efallai na fyddant yn gywir mwyach.* Mae Siart 55 yn dangos prisiau stryd nodweddiadol cyffuriau anghyfreithlon dethol yn y DU hyd at 2018.

²⁸ Mae adroddiadau blynyddol UK Focal Point ar gael yn <http://www.nta.nhs.uk/focalpoint.aspx>



Siart 53: Pris stryd nodweddiadol cyffuriau anghyfreithlon dethol yn seiliedig ar adroddiadau asiantaethau gorfodi'r gyfraith, DU, 2010-18²⁹

Mae data ar gyfer y DU yn awgrymu bod prisiau cyffuriau wedi aros yn gymharol sefydlog yn y blynyddoedd diweddaraf a gofnodwyd ar gyfer y rhan fwyaf o sylweddau. Mae'r data hwn yn dangos bod pris cocên powdr wedi dyblu yn 2017, o £40 y gram i £80, a allai adlewyrchu'r cynnydd mewn purdeb cyffredinol.

Yn 2024, cynhaliodd Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgynghoriad â rhanddeiliaid iechyd a gorfodi'r gyfraith ledled Cymru i baratoi cyflwyniad i'r Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau.³⁰ Er bod y canfyddiadau hyn hefyd yn dangos cynnydd mewn purdeb cocên, amlygodd hefyd y gallai'r pris fod yn gostwng yng Nghymru.


Dywedodd ffynonellau'r heddlu fod y galw am gocên yn parhau i gynyddu a bod y pris cyfanwerthol wedi gostwng oherwydd y swm enfawr sy'n cael ei gynhyrchu. Dywedodd yr Heddlu ei bod yn gyffredin i gyflenwyr feddiannu sawl cilogram ar y tro, a bod cocên yn cael ei werthu ar lefel ddefnyddwyr gydag ychydig iawn o lygru. Mae purdeb atafaeliadau bach o gocên a chrac cocên wedi bod yn cynyddu ers 2009 ac maent ar y lefelau purdeb uchaf a welwyd yn y 10 mlynedd ddiwethaf.

Dywedodd gwasanaethau cyffuriau fod cocên powdr yn ymddangos yn fwy gweladwy, fforddiadwy, hawdd ei gyrchu ac yn gymdeithasol dderbyniol. Ers

²⁹ Nid oedd data ar gyfer Meffedron ar gael ar gyfer 2013 i 2015.

³⁰ Dean Acreman, 'Drivers of Cocaine Use in Wales: Submission to the Advisory Council on the Misuse of Drugs', ICC, 2024

pandemig COVID-19, mae llai o drafodion arian parod yn economi'r nos ac felly mae unigolion yn tueddu i gario llai o arian parod. Mae marchnadoedd cyffuriau wedi ymateb i'r newid hwn drwy werthu symiau llai fesul gwerthiant (h.y. tua hanner gram o gocên o ansawdd uchel am £20-£30), sydd, yn nodweddiadol, yn ddigon am y noson honno'n unig. Mae Siart 54 yn amlygu ymhellach bod purdeb atafaeliadau bach o gocên a chrac cocên wedi bod yn cynyddu ers 2009 ac wedi cyrraedd uchafswm dros 10 mlynedd yn 2018. Mae purdeb heroin wedi aros yn gyson rhwng 2009 a 2018 ar lefelau sy'n gymaradwy â'r rhai a welwyd cyn y sychder heroin. Er nad oes data ar burdeb cymedrig atafaeliadau o dabledi MDMA ar gael yn adroddiad UK Focal Point, mae tystiolaeth ddiweddar gan yr EMCDDA yn dangos bod purdeb MDMA yn gyffredinol yn parhau i fod yn sefydlog ledled Ewrop.³¹



Siart 54: Purdeb canrannol cymedrig y nifer fach o atafaeliadau cyffuriau yng Nghymru a Lloegr, 2009-18, yn ôl cyffuriau dethol³²

³¹ EMCDDA (2023) European Drug Report 2023: Trends and Developments. Ar gael yn: <https://statics.teams.cdn.office.net/evergreen-assets/safelinks/1/atp-safelinks.html>

³² Nid oedd data ar gyfer MDMA ar gael ar gyfer 2013, 2015 a 2016.

18 Atodiadau

Atodiad A: Derbyniadau ysbyty a oedd yn ymwneud ag alcohol - diffiniadau

Pan dderbynnir unigolyn i'r ysbyty, disgrifir y cyfnod rhwng derbyn a rhyddhau neu farwolaeth fel 'ysbaid'. Gall cyfnod gynnwys nifer o 'gyfnodau' penodol pan fydd y claf dan ofal ymgynghorydd a enwir. Bydd cyfnod newydd yn dechrau pan fydd claf yn cael ei drosglwyddo i ofal ymgynghorydd arall, boed hynny oherwydd bod angen meddygol gwahanol wedi'i nodi, oherwydd bod y claf wedi cyrraedd pwynt pontio yn ei adferiad neu angen am ofal, neu am ryw reswm arall. Ar gyfer pob cyfnod, mae'r cyflwr a nodir fel y mwyaf perthnasol mewn perthynas â'u derbyniad neu driniaeth barhaus yn cael ei gofnodi gan staff meddygol, ynghyd â chyflyrau eilaidd pellach sy'n effeithio ar driniaeth ac unrhyw ffactorau allanol sy'n ymwneud â'r derbyniad. Mae'r cofnodion hyn wedi'u codio i fframwaith safonol a elwir yn Ddosbarthiad Ystadegol Rhyngwladol o Glefydau a Phroblemau Iechyd Cysylltiedig, sydd bellach yn ei ddegfed argraffiad ac a elwir felly yn 'ICD-10'. Mae disgrifiadau llawn o'r cyflyrau sy'n gysylltiedig â phob cod ICD-10 ar gael gan Sefydliad Iechyd y Byd yn <http://apps.who.int/classifications/icd10/browse/2010/cy>.

Mae pedwar dimensiwn allweddol ar gyfer mesur effaith alcohol ar iechyd y boblogaeth ac ar y gwasanaethau gofal iechyd sy'n darparu gofal meddygol trwy dderbyniadau i'r ysbyty. Disgrifir y dimensiynau hyn yn Tabl 1.

Tabl 1: Dimensiynau a ddefnyddir i fesur effaith alcohol ar boblogaethau a gwasanaethau gofal iechyd

Dimensiwn	Disgrifiad ac opsiynau
Detholiad o godau craidd ICD-10	Y dewis o godau ICD-10 i'w cynnwys yn y dadansoddiad. Ar gyfer derbyniadau sy'n gysylltiedig ag alcohol, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio codau ICD-10 a gynhyrchwyd yn wreiddiol gan y Ganolfan Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol Liverpool John Moores ³³ ac a fabwysiadwyd gan Public Health England ³⁴ . Cyfeirir at y rhain yn aml fel 'Ffracsiynau y gellir eu priodoli i alcohol' (' AAF '). Sylwch fod dadansoddiad o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yn yr adroddiad hwn wedi defnyddio'r diffiniad AAF a'r diffiniad a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (' SYG '). Gweler Atodiad B. Mae rhestr o'r holl godau AAF ICD-10 i'w gweld yn Nhabl 6 isod.

³³ Jones, L and Bellis, M (2013) Updating England-specific alcohol-attributable fractions, Centre for Public Health, Prifysgol Liverpool John Moores. Ar gael yn https://fingertips.phe.org.uk/documents/2014_03 Updating England specific alcohol attributable fractions.pdf

³⁴ Public Health England (2015) Local Alcohol Profiles for England 2015 user guide. Ar gael yn <https://fingertips.phe.org.uk/profile/local-alcohol-profiles/supporting-information/resources>

'Penodol' neu 'priodoliedig'	Mae 'cyflyrau alcohol-benodol' yn cael eu diffinio'n gyffredin fel y cyflyrau hynny, fel clefyd alcoholaidd yr afu, y gellir eu priodoli'n gyfan gwbl i'r defnydd o alcohol. Fodd bynnag, mae alcohol hefyd yn chwarae rhan mewn ystod ehangach o 'gyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol'. Er enghraifft, amcangyfrifir bod alcohol yn chwarae rhan achosol mewn 25-33 y cant o arhythmia'r galon, gyda'r gyfran yn amrywio yn ôl rhywedd ac oedran.³⁵. Mae gan rai codau achosion allanol hefyd ffracsiwn y gellir ei briodoli i alcohol: amcangyfrifwyd bod 27 y cant o ymosodiadau yn gysylltiedig ag alcohol³⁵. Fel y disgrifir uchod, mae ffracsiynau y gellir eu priodoli i alcohol (AAF), sy'n disgrifio'r cyfraniad achosol y cyfrifwyd amdano gan alcohol ar draws y boblogaeth, wedi'u cyfrifo ar gyfer ystod o gyflyrau ac mae DHCW wedi defnyddio'r ffracsiynau hyn i gynhyrchu ffigurau ar gyfer derbyniadau y gellir eu priodoli i alcohol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae 'cyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol' yn cynnwys pob 'cyflwr alcohol-benodol', gan fod y rhain, yn ôl eu diffiniad, yn cael eu hachosi'n gyfan gwbl gan alcohol. Dangosir rhestr o'r holl godau AAF ICD-10 yn Nhabl 6 isod.
Safle diagnostig	Gellir cyfrif cofnodion os ydynt yn cynnwys unrhyw god perthnasol yn y safle diagnostig sylfaenol neu os ydynt yn cynnwys unrhyw god perthnasol mewn unrhyw safle diagnostig (sylfaenol neu eilaidd). Wrth ystyried cyflyrau alcohol-benodol (gweler uchod), y mesur a ddefnyddir amlaf yw derbyniadau â chyflwr sy'n gysylltiedig ag alcohol mewn unrhyw sefyllfa ('unrhyw sefyllfa'); fodd bynnag, mae ffigurau ar gyfer derbyniadau â chyflwr sy'n gysylltiedig ag alcohol yn y sefyllfa sylfaenol hefyd yn cael eu dyfynnu o bryd i'w gilydd ('sefyllfa sylfaenol'). Mae'r dulliau ar gyfer cynhyrchu ffigurau ar gyfer cyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol (gweler uchod) hefyd yn cynnwys cyfrifo mesurau yn seiliedig ar ddiagnosis sylfaenol ac eilaidd; fodd bynnag, mae nifer o wahaniaethau rhwng y cyfrifiadau hyn a'r rhai a ddefnyddir i gynhyrchu ffigurau alcohol-benodol. Mae 'mesuriad cul' yn cynnwys yr holl gofnodion lle'r oedd y prif ddiagnosis yn gyflwr y gellir ei briodoli i alcohol, NEU unrhyw ddiagnosis eilaidd yn 'achos allanol' (gweler Tabl 6 a Thabl 9). Mae 'mesuriad bras' yn cynnwys yr holl gofnodion lle'r oedd unrhyw gyflwr y gellir ei

³⁵ Perkins, C and Hennessey, M (2014) Understanding alcohol-related hospital admissions. Chief Knowledge Officer, Public Health Matters blog, Public Health England.
<https://publichealthmatters.blog.gov.uk/2014/01/15/understanding-alcohol-related-hospital-admissions/>

	briodoli i alcohol yn ymddangos mewn unrhyw sefyllfa ddiagnostig. Yn y ddau achos, lle mae mwy nag un cyflwr y gellir ei briodoli i alcohol yn ymddangos yn y cofnod, dewisir y cyflwr sydd â'r ffracsiwn uchaf y gellir ei briodoli i alcohol. Hefyd, gweler isod am ryngweithiadau rhwng safle diagnostig a ffigurau ar sail unigolion/cyfnodau.
Ar sail unigolion neu dderbyniadau	Gellir cyfrifo ffigurau ar gyfer nifer yr unigolion a dderbyniwyd ('ar sail unigolion') neu ar gyfer cyfanswm y derbyniadau ('ar sail derbyniadau'), gan gofio y bydd rhai unigolion yn cael eu derbyn fwy nag unwaith mewn cyfnod penodol o amser. Gall mesurau sy'n seiliedig ar unigolion gynnig darlun mwy defnyddiol o iechyd y boblogaeth; gall ffigurau ar sail derbyniadau fod yn fwy perthnasol wrth ystyried y baich y mae cyflyrau penodol yn ei roi ar wasanaethau. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio mesurau sy'n seiliedig ar unigolion. Yn dilyn y confensiynau a fabwysiadwyd gan Public Health England, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrif derbyniadau camddefnyddio sylweddau yn seiliedig ar unigolion ar sail cod ICD-10 perthnasol sy'n ymddangos ar gyfer unrhyw gyfnod o'r ysbaid. Ar gyfer ffigurau sy'n seiliedig ar dderbyniadau, dim ond derbyniadau y mae'r cyflwr perthnasol yn ymddangos ar eu cyfer yn y cofnod ar gyfer y cyfnod derbyn sy'n cael eu cynnwys.

Mae ystod eang o ystyriaethau technegol yn ymwneud â datblygu mesurau dros amser a'r dulliau o echdynnu a dadansoddi data. Lle disgrifir cymariaethau rhwng Cymru a Lloegr yn yr adroddiad hwn, ystyrir bod y ffigurau'n gymaradwy; fodd bynnag, gall fod mân wahaniaethau yn y ffordd y caiff data ei ddiffinio a'i brosesu. Am drafodaeth fanylach ar sut mae ffigurau derbyniadau cysylltiedig ag alcohol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer Cymru, gweler *Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac iechyd yng Nghymru 2014*, Canllaw Technegol ([http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf/85c50756737f79ac80256f2700534ea3/65ed28d06e1f44fd80257d73002a4e75/\\$FILE/AlcoholAndHealthInWales_TechnicalGuide_v2a.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf/85c50756737f79ac80256f2700534ea3/65ed28d06e1f44fd80257d73002a4e75/$FILE/AlcoholAndHealthInWales_TechnicalGuide_v2a.pdf))

Am fanylion ar gynhyrchu ffigurau ar gyfer Lloegr, gweler: Public Health England (2015) *Local Alcohol Profiles for England 2015 user guide* (http://www.lape.org.uk/downloads/LAPE%20User%20Guide_Final.pdf)

Cyhoeddwyd y codau ICD-10 diweddaraf ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol a chyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol yn 2013 ac maent wedi'u nodi yn

Tabl 2. Sylwch fod codau wedi'u diweddarau yn rhifyn 2013 o'r Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol wedi ychwanegu saith cod at y set o godau alcohol-benodol a nodwyd yn y rhifyn blaenorol (2008) a ddefnyddiwyd ar gyfer fersiynau blaenorol o'r adroddiad hwn. Roedd y codau hyn, a nodir yn Nhabl 3, gyda'i gilydd yn cyfrif am 250 o dderbyniadau gyda diagnosis alcohol-benodol mewn unrhyw sefyllfa yn 2013-14, sef 1.6 y cant o'r cyfanswm.

Tabl 2: Codau ICD-10 ar gyfer cyflyrau alcohol-benodol a rhai y gellir eu priodoli i alcohol, fel y'u diffinnir gan Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol (2013)

Cyflwr	Cod
<i>Cyflyrau alcohol-benodol (a achosir yn gyfan gwbl gan alcohol)</i>	
Syndrom pseudo-Cushing a achosir gan alcohol	E24.4
Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol oherwydd y	F10
Dirywiad y system nerfol oherwydd alcohol	G31.2
Polyniwropathi alcoholaidd	G62.1
Myopathi alcoholaidd	G72.1
Cardiomyopathi alcoholaidd	I42.6
Gastritis alcoholaidd	K29.2
Clefyd alcoholaidd yr afu	K70
Pancreatitis aciwt a achosir gan alcohol*	K85.2*
Pancreatitis cronig a achosir gan alcohol	K86.0
Syndrom alcohol y ffetws (dysmorffig)*	Q86.0*
Lefelau alcohol gormodol yn y gwaed*	R78.0*
Gwenwyno gan Ethanol	T51.0
Gwenwyno gan Fethanol	T51.1
Effaith wenwynig alcohol, amhenodol	T51.9
Gwenwyno damweiniol gan alcohol a dod i gysylltiad ag	X45
Hunan-wenwyno bwriadol gan alcohol a dod i gysylltiad	X65
Gwenwyno gan alcohol a dod i gysylltiad ag alcohol,	Y15
Tystiolaeth fod yr achos yn ymwneud ag alcohol wedi'i	Y90
Tystiolaeth fod yr achos yn ymwneud ag alcohol wedi'i	Y91
<i>*Ychwanegwyd codau at y rhestr o gyflyrau alcohol-benodol yn 2013</i>	
<i>Cyflyrau y gellir eu priodoli'n rhannol i alcohol</i>	
<i>Cyflyrau cronig</i>	
Clefydau heintus a pharasitig	
Twbercwlosis	A15-A19
Neoplasm malaen	
Neoplasm malaen y wefus, ceudod y geg a'r ffaryncs	C00-C14
Neoplasm malaen yr oesoffagws	C15
Neoplasm malaen y colon a'r rhefr	C18-C20, C21
Neoplasm malaen yr afu a'r dwythellau bustl	C22
Neoplasm malaen y laryncs	C32
Neoplasm malaen y fron	C50
Clefydau'r system nerfol	
Epilepsi a Chyflwr epileptig	G40-G41
Clefyd cardiofasgwlaidd	

Clefydau gorbwysedd	I10-I15
Clefyd isgemig y galon	I20-I25
Arhythmia'r galon	I47-I48
Strôc waedliflwl	I60-I62, I69.0-I69.2
Strôc isgemig	I63-I66, I69.3-I69.4
Gwythiennau chwyddedig yn yr oesoffagws	I85
Heintiau anadlol	
Niwmonia	J10.0, J11.0, J12-
Clefyd treulio	
Clefyd yr afu amhenodol	K73, K74
Cerrig y bustl	K80
Pancreatitis aciwt a chronig	K85, K86.1
Beichiogrwydd a genedigaeth	
Erthyliad naturiol	O03
Pwysau geni isel	P05-P07
Cyflyrau aciwt	
Anafiadau anfwriadol	
Damweiniau ffordd/cerddwyr	*
Gwenwyno	X40-X49
Anafiadau ar ôl cwmpo	W00-W19
Anafiadau tân	X00-X09
Boddi	W65-W74
Anafiadau anfwriadol eraill	*
Anafiadau bwriadol	
Hunan-niweidio bwriadol	X60-X84, Y87.0
Digwyddiad o fwriad heb ei benderfynu	Y10-Y34, Y87.2
Ymosodiad	X85-Y09, Y87.1

Yn ogystal ag adrodd ar niferoedd a chyfraddau ar gyfer yr holl gyflyrau alcohol-benodol a chyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol, mae'r adroddiad hwn hefyd yn adrodd ar dri is-gategori o dderbyniadau sy'n gysylltiedig ag alcohol: y rhai sy'n ymwneud â syndrom alcohol y ffetws (FAS), y ffetws/mam yn diddyfnu o alcohol a chyffuriau caethiwus eraill a niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol (ARBD). Mae'r codau ICD-10 a ddefnyddiwyd i ddiffinio'r amodau hyn yn yr adroddiad hwn i'w gweld yn Nhabl 7.

Tabl 3: Codau ICD-10 a ddefnyddir i ddiffinio syndrom alcohol y ffetws, mamau'n diddyfnu o alcohol a chyffuriau caethiwus a niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol yn yr adroddiad hwn

Cyflyrau	Codau ICD-10
Syndrom alcohol y ffetws	Q860
Ffetws/mam yn diddyfnu o alcohol a chyffuriau caethiwus	P043, P044, P961
Niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol	E512, E52, F106, F107, G312, G621, K704, G371

O ddiddordeb arbennig mewn dadansoddi morbidrwydd a marwolaethau sy'n deillio o ddefnyddio cyffuriau ac alcohol yw'r codau ICD-10 sy'n ymwneud ag 'Anhwylderau meddwl ac ymddygiadol o ganlyniad i ddefnyddio cyffuriau seicoweithredol', wedi'u codio fel F10-F19. Mae pob cod tri ffigur (F10, F11, ac ati) yn ymwneud â sylwedd neu ddosbarth penodol o sylweddau. Gellir ychwanegu pedwerydd ffigur ychwanegol i roi rhagor o fanylion am y cyflwr y gallai unigolyn fod yn dioddef ohono. Mae manylion y pedwerydd nod wedi'u crynhoi yn Nhabl 8.

Tabl 4: Manylion cyflyrau a ddynodir gan bedwerydd nod codau ICD-10 sy'n dechrau gyda 'F'

Fxx0	Meddwdod aciwt Cyflwr sy'n dilyn cymryd sylwedd seicoweithredol sy'n arwain at aflonyddwch yn lefel yr ymwybyddiaeth, gwybyddiaeth, canfyddiad, effaith neu ymddygiad, neu swyddogaethau ac ymatebion seicoffisiolegol eraill. Mae'r aflonyddwch yn uniongyrchol gysylltiedig ag effeithiau ffarmacolegol aciwt y sylwedd ac yn adfer gydag amser, gydag adferiad llwyr, ac eithrio lle mae difrod meinwe neu gymhlethdodau eraill wedi codi. Gall cymhlethdodau gynnwys trawma, mewnanadlu cyfog, deliriwm, coma, confylsiynau, a chymhlethdodau meddygol eraill. Mae natur y cymhlethdodau hyn yn ddibynnol ar ddosbarth ffarmacolegol y sylwedd a'r dull o'i gymryd. Meddwdod aciwt mewn alcoholiaeth "Tripiâu gwael" (cyffuriau) Meddwdod NOS Meddwdod patholegol
-------------	--

	Anhwylдераu llesmair a meddiant mewn meddwdod ar sylweddau seicoweithredol <i>Nid yw'n cynnwys: meddwdod sy'n golygu gwenwyno</i>
Fxx1	Defnydd niweidiol Patrwm o ddefnyddio sylweddau seicoweithredol sy'n achosi niwed i iechyd. Gall y difrod fod yn gorfforol (fel mewn achosion o hepatitis o ganlyniad i hunan-weinyddu sylweddau seicoweithredol wedi'u chwistrellu) neu'n feddyliol (e.e. cyfnodau o anhwylder iselder sy'n eilaidd i yfed llawer o alcohol). Camddefnyddio sylweddau seicoweithredol
Fxx2	Syndrom dibyniaeth Clwstwr o ffenomenau ymddygiadol, gwybyddol a ffisiolegol sy'n datblygu ar ôl defnyddio sylweddau dro ar ôl tro ac sydd fel arfer yn cynnwys awydd cryf i gymryd y cyffur, anawsterau wrth reoli ei ddefnydd, parhau i'w ddefnyddio er gwaethaf canlyniadau niweidiol, blaenoriaeth uwch yn cael ei rhoi i ddefnyddio cyffuriau nag i weithgareddau a rhwymedigaethau eraill, goddefgarwch cynyddol, ac weithiau cyflwr corfforol diddyfnadwy. Gall syndrom dibyniaeth fod yn bresennol ar gyfer sylwedd seicoweithredol penodol (e.e. tybaco, alcohol, neu diazepam), ar gyfer dosbarth o sylweddau (e.e. cyffuriau opioid), neu ar gyfer ystod ehangach o sylweddau seicoweithredol ffarmacolegol gwahanol. Alcoholiaeth gronig Dipsomania Caethiwed i gyffuriau
Fxx3	Cyflwr diddyfnu Grŵp o symptomau clystyru a difrifoldeb amrywiol sy'n digwydd wrth ddiddfyfnu o sylwedd seicoweithredol yn llwyr neu'n gymharol ar ôl defnyddio'r sylwedd hwnnw'n barhaus. Mae terfyn amser ar ddechrau a chwrs y cyflwr diddyfnu ac maent yn gysylltiedig â'r math o sylwedd seicoweithredol a'r dos a ddefnyddir yn union cyn rhoi'r gorau i ddefnyddio neu leihau'r defnydd ohono. Gall y cyflwr diddyfnu gael ei gymhlethu gan gonfylsiynau.
Fxx4	Cyflwr diddyfnu gyda deliriwm Cyflwr lle mae'r cyflwr diddyfnu fel y'i diffinnir yn y pedwerydd cymeriad cyffredin .3 yn cael ei gymhlethu gan ddeliriwm fel y'i diffinnir yn F05.-. Gall confylsiynau ddigwydd hefyd. Pan ystyrir bod

	ffactorau organig hefyd yn chwarae rhan yn yr achoseg, dylid dosbarthu'r cyflwr i F05.8. Deliriwm tremens (wedi'i achosi gan alcohol)
Fxx5	Anhwylder seicotig Clwstwr o ffenomenau seicotig sy'n digwydd yn ystod neu ar ôl defnyddio sylweddau seicoweithredol ond nad ydynt yn cael eu hesbonio ar sail meddwdod aciwt yn unig ac nad ydynt yn ffurfio rhan o gyflwr diddyfnu. Nodweddir yr anhwylder gan rithweledigaethau (clywedol fel arfer, ond yn aml mewn mwy nag un modd synhwyrdd), afluniadau canfyddiadol, lledrithion (yn aml o natur baraniaidd neu erlidol), aflonyddwch seicomoraidd (cyffro neu syrthni), ac effaith annormal, a all amrywio o ofn dwys i ecstasi. Mae'r sensorium fel arfer yn glir ond gall rhywfaint o gymylu ymwybyddiaeth, er nad yw'n ddryswch difrifol, fod yn bresennol. · Rhithwelediad Alcholaidd · Cenfigen Alcholaidd · Paranoia Alcholaidd Nid yw'n cynnwys: alcohol - neu anhwylder seicotig gweddilliol a datblygiad hwyr a achosir gan alcohol neu sylweddau seicoweithredol arall (<u>F10-F19</u> gyda phedwaredd nod gyffredin .7)
Fxx6	Syndrom anghofus Syndrom sy'n gysylltiedig ag amhariad amlwg cronig ar gof diweddar a'r gorffennol. Fel arfer cedwir atgof ar unwaith, ac yn nodweddiadol mae cof diweddar yn cael ei aflonyddu'n fwy na chof o'r gorffennol. Mae aflonyddwch o ran synnwyr amser a threfn digwyddiadau yn amlwg fel arfer, yn ogystal ag anawsterau wrth ddysgu deunydd newydd. Gellir nodi chwedleua ond nid yw'n bresennol yn ddieithriad. Mae swyddogaethau gwybyddol eraill fel arfer wedi'u cadw'n gymharol dda ac mae diffygion anghofus yn anghymesur ag aflonyddwch arall. Anhwylder anghofus, seicosis neu syndrom Korsakov a achosir gan alcohol neu gyffuriau, a achosir gan alcohol neu sylwedd seicoweithredol arall neu amhenodol Nid yw'n cynnwys: seicosis neu syndrom Korsakov di-alcholaidd (F04)
Fxx7	Anhwylder seicotig gweddilliol a hwyr Anhwylder lle mae newidiadau gwybyddiaeth, effaith, personoliaeth neu ymddygiad a achosir gan alcohol neu sylweddau seicoweithredol yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod y gellir tybio'n rhesymol bod effaith

	seicoweithredol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â sylweddau yn gweithredu. Dylai dyfodiad yr anhwylder fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r defnydd o'r sylwedd seicoweithredol. Dim ond pan fydd tystiolaeth glir a chryf ar gael i briodoli'r cyflwr i effaith weddilliol y sylwedd seicoweithredol y dylid codio achosion lle mae'r cyflwr yn dechrau'n hwyrach na chyfnod(au) o ddefnyddio sylweddau o'r fath. Gellir gwahaniaethu rhwng ôl-fflachiau a chyflwr seicotig yn rhannol oherwydd eu natur ysbeidiol, yn aml am gyfnod byr iawn, a thrwy ddyblygu profiadau blaenorol sy'n gysylltiedig ag alcohol neu sylweddau seicoweithredol eraill. Dementia alcoholaidd NOS Syndrom alcoholaidd cronig yr ymennydd Dementia a ffurfiau ysgafnach eraill o amhariad parhaus ar swyddogaethau gwybyddol Ôl-fflachiau Anhwylder seicotig sy'n cael ei achosi gan sylweddau seicoweithredol sy'n dechrau'n hwyr Anhwylder canfod ar ôl rhithbair · Anhwylder Affeithiol Gweddilliol · Anhwylder Personoliaeth ac Ymddygiad Gweddilliol <i>Nid yw'n cynnwys:</i> · Syndrom Korsakov (<u>F10-F19</u> gyda phedwaredd nod gyffredin .6) · cyflwr seicotig (<u>F10-F19</u> gyda phedwaredd nod gyffredin .5) a achosir gan alcohol neu sylweddau seicoweithredol.
Fxx8	Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol eraill
Fxx9	Anhwylder meddyliol ac ymddygiadol amhenodol

Atodiad B: Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol - diffiniadau

Fel y disgrifir yn Atodiad A, mae dwy set o ffigurau ar gael i ddisgrifio marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, un a ddefnyddir gan Public Health England (y Ffracsiynau y gellir eu priodoli i Alcohol, AAF) ac un a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Mae'r ddwy fethodoleg yn diffinio 'marwolaeth sy'n gysylltiedig ag alcohol' yn nhermau'r 'achos sylfaenol' (h.y. yr achos a nodwyd gan y meddyg sy'n mynychu fel yr achos a ysgogodd y dilyniant o ddigwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth) ac nid ydynt yn ystyried effaith cyflyrau eraill sy'n gysylltiedig ag alcohol y gellir eu crybwyll ar y cofnod marwolaeth. Gellir defnyddio'r ddwy fethodoleg i gynhyrchu ffigurau 'alcohol-benodol' (h.y. gan gynnwys yr amodau hynny y gellir eu priodoli'n llwyr i alcohol - gweler Atodiad A). Fel y dangosir yn Tabl 5, mae'r codau ICD-10 (gweler Atodiad A) a ddefnyddir i ddiffinio pob set o ffigurau 'alcohol-benodol' yn gorgyffwrdd yn sylweddol, ond nid ydynt yn union yr un fath.

Tabl 5: Cyflyrau a ddefnyddir i gyfrifo marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol a diffiniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Sylwch fod y cyflyrau AAF a ddefnyddir i ddiffinio marwolaethau alcohol-benodol yn union yr un fath â'r rhai a ddefnyddir i ddiffinio derbyniadau alcohol-benodol i ysbytai

Cyflwr	Cod ICD-10	Wedi'i gynnwys yn niffiniad y SYG?	Wedi'i gynnwys yn niffiniad alcohol-benodol y SYG?	Wedi'i gynnwys yn niffiniad AAF?
Syndrom pseudo-Cushing a achosir gan alcohol	E24.4		✓	✓
Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol oherwydd y defnydd o alcohol	F10*	✓	✓	✓
Dirywiad y system nerfol oherwydd alcohol	G31.2	✓	✓	✓
Polyniwropathi alcoholaidd	G62.1	✓	✓	✓
Myopathi alcoholaidd	G72.1		✓	✓
Cardiomyopathi alcoholaidd	I42.6	✓	✓	✓
Gastritis alcoholaidd	K29.2	✓	✓	✓
Clefyd alcoholaidd yr afu	K70*	✓	✓	✓

Hepatitis cronig nad yw wedi'i ddsbarthu mewn man arall	K73*	✓		
Ffibrosis a sirosis yr afu	K74 (Ac eithrio K74.3-K74.5 - sirosis y bustl)	✓		
Pancreatitis aciwt a achosir gan alcohol	K85.2		✓	✓
Pancreatitis cronig a achosir gan alcohol	K86.0	✓	✓	✓
Syndrom alcohol y ffetws (dysmorffig)	C86.0		✓	✓
Lefelau alcohol gormodol yn y gwaed	R78.0		✓	✓
Gwenwyno gan Ethanol	T51.0			✓
Gwenwyno gan Fethanol	T51.1			✓
Effaith wenwynig alcohol, amhenodol	T51.9			✓
Gwenwyno damweiniol gan alcohol a dod i gysylltiad ag alcohol	X45*	✓	✓	✓
Hunan-wenwyno bwriadol gan alcohol a dod i gysylltiad ag alcohol	X65*	✓	✓	✓
Gwenwyno gan alcohol a dod i gysylltiad ag alcohol, bwriad amhendant	Y15*	✓	✓	✓
Tystiolaeth fod yr achos yn ymwneud ag alcohol wedi'i bennu gan lefelau alcohol yn y gwaed	Y90			✓
Tystiolaeth fod yr achos yn ymwneud ag alcohol wedi'i bennu gan lefel y meddwdod	Y91			✓
*yn cynnwys pob un o'r pedwar cod nod sy'n dod o dan y cod tri nod hwn				

Yn ogystal â marwolaethau alcohol-benodol, gellir defnyddio'r fethodoleg AAF i gynhyrchu ffigurau ar gyfer marwolaethau 'y gellir eu priodoli i alcohol'. Fel y disgrifir yn fanwl yn Atodiad A, mae ffigurau ar gyfer cyflyrau 'y gellir eu priodoli i alcohol' yn adlewyrchu'r ffaith fod alcohol yn gysylltiedig â chyfran o ystod o gyflyrau meddygol o'i ystyried ar draws y boblogaeth gyfan. Mae

DHCW yn defnyddio'r fethodoleg AAF a ddefnyddir i gynhyrchu ffigurau ar gyfer marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yng Nghymru.

Gellir dod o hyd i ddisgrifiadau manylach o'r methodolegau sy'n sail i'r dulliau hyn o gynhyrchu ffigurau marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol ar gyfer y SYG yn:

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) Alcohol-related deaths in the United Kingdom, registered in 2014. Llundain, Y Llyfrfa
(<http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/causesofdeath/bulletins/alcoholrelateddeathsintheunitedkingdom/registeredin2014>)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) User guide to mortality statistics. Casnewydd, Y Llyfrfa
(<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/methodologies/userguidetomortalitystatistics>)

Ac ar gyfer Ffracsiynau y Gellir eu Priodoli i Alcohol yn:

Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Alcohol ac iechyd yng Nghymru 2014, Canllaw Technegol
([http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf/85c50756737f79ac80256f2700534ea3/65ed28d06e1f44fd80257d73002a4e75/\\$FILE/AlcoholAndHealthInWales_TechnicalGuide_v2a.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf/85c50756737f79ac80256f2700534ea3/65ed28d06e1f44fd80257d73002a4e75/$FILE/AlcoholAndHealthInWales_TechnicalGuide_v2a.pdf))

Jones, L and Bellis, M (2013) Updating England-specific alcohol-attributable fractions, Centre for Public Health, Prifysgol Liverpool John Moores
(<http://www.cph.org.uk/wp-content/uploads/2014/03/24892-ALCOHOL-FRACTIONS-REPORT-A4-singles-24.3.14.pdf>)

Mae materion yn ymwneud â chymaroldeb a chysondeb, dros amser a rhwng daearyddiaethau, yn golygu y defnyddir y ddwy set o ffigurau.

Atodiad C: Derbyniadau ysbyty oherwydd gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon - diffiniadau

I gael manylion am y gwahanol ffyrdd o fesur derbyniadau i'r ysbyty oherwydd camddefnyddio sylweddau yn gyffredinol, gweler Atodiad A. Mae'r Atodiad hwn yn ymdrin yn benodol â'r gwahanol godau ICD-10 (gweler Atodiad A) a ddefnyddir i gynhyrchu ffigurau ar gyfer gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn.

Mae codau ICD-10 ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon i'w cael mewn nifer o wahanol gategoriau ar draws y system godio. Defnyddiwyd nifer o wahanol fethodolegau i nodi cofnodion derbyniadau i'r ysbyty sy'n ymwneud â defnyddio cyffuriau penodol a hefyd i ddarparu prif ffigurau y gellir eu cymharu'n ystyrlon dros wahanol gyfnodau amser a daearyddiaeth.

Mae'r codau ICD-10 a ddefnyddiwyd i ddiffinio derbyniadau i'r ysbyty sy'n ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon yn yr adroddiad hwn i'w gweld yng nghodau grwpiau Tabl 10 fesul sylwedd ac mae hefyd yn cyflwyno'r diffiniadau a ddefnyddir gan NHS Digital, sy'n cynhyrchu ystadegau cymaradwy ar gyfer Lloegr.

Tabl 6: Codau ICD-10 a ddefnyddir i ddiffinio derbyniadau i'r ysbyty oherwydd gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon yn y sefyllfa sylfaenol. Mae manylion llawn codau ICD-10 ar gael yn:

<http://apps.who.int/classifications/icd10/browse/2010/cy>

Mesur	Codau ICD-10
Unrhyw ddefnydd o gyffuriau anghyfreithlon	F11-F16, F18, F19, T40, T424, T436
Unrhyw gyflwr meddyliol/ymddygiadol (diffiniad NHS Digital)	F11-F16, F18, F19
Unrhyw wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon (diffiniad NHS Digital)	T400-T403, T405-T409, T436
Opioidau	F11, T400-T403
Canabinoidau	F12, T407
Tawelyddion a chyffuriau hypnotig	F13, T408, T409
Cocên	F14, T405
Symbylyddion eraill	F15, T436
Defnydd o gyffuriau lluosog	F19
Bensodiasepinau	T424

Atodiad D: Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau - diffiniadau

Mae'r ffigurau ar gyfer marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi'u cymryd o ddata a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). I gael manylion am sut mae'r SYG yn casglu data marwolaethau, gweler Atodiad B. Mae'r SYG yn adrodd ar ddau fesur o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau. Mae 'marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau' yn cynnwys pob marwolaeth lle mae'r achos sylfaenol yn cyfeirio at ICD-10 sy'n ymwneud â chyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon (heb gynnwys alcohol a thybaco). 'Marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau' yw'r is-set o farwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau sy'n cynnwys pob marwolaeth lle mae codau ICD-10 F11-F16 ac F18-19 (h.y. y codau hynny sy'n cyfeirio'n benodol at gyffuriau anghyfreithlon) a'r marwolaethau sy'n weddill wedi'u codio fel gwenwyno gan gyffuriau lle crybwyllwyd cyffur anghyfreithlon ar y cofnod marwolaeth. Dangosir y codau ICD-10 a ddefnyddir gan y SYG i ddiffinio marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau yn Nhabl 11.

Diffinnir 'cyffuriau anghyfreithlon' yn nhermau Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, y gellir ei diwygio gan yr Ysgrifennydd Cartref i ychwanegu neu ddileu cyffuriau. Ar gyfer ffigurau 2013 o ran marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, defnyddiodd y SYG restr o 'gyffuriau anghyfreithlon' a oedd yn cynnwys 20 o gyffuriau rheoledig newydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ailgyfrifodd y SYG hefyd y ffigurau ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau ar gyfer blyneddoddd blaenorol. Newidiodd y fethodoleg newydd hon nifer y marwolaethau yng Nghymru yr ystyrir eu bod yn cael eu hachosi gan gamddefnyddio cyffuriau. Er enghraifft, ar gyfer 2012 cododd nifer y marwolaethau o 131 gan ddefnyddio'r hen fethodoleg i 135. Felly, gall y ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fod yn wahanol i'r ffigurau a gyflwynwyd mewn adroddiadau blaenorol. Rhoddir rhestr o sylweddau a ychwanegwyd at y diffiniad o 'gyffuriau anghyfreithlon' ar gyfer adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yn 2013 yn Nhabl 12.

Tabl 7: Codau ICD-10 a ddefnyddir gan y SYG i ddiffinio 'marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau'.

Cyflwr	Cod
<i>Pob marwolaeth lle nodir y cyflyrau canlynol fel yr achos sylfaenol</i>	
Anhwyllderau meddyliol ac ymddygiadol oherwydd opioidau, cocên, tawelyddion neu gyffuriau hypnotig, cocên, symbylyddion eraill gan gynnwys caffeine, rhithbeiriau, defnyddio cyffuriau lluosog	F11–F16, F19
<i>Pob marwolaeth lle nodir yr amodau canlynol fel yr achos sylfaenol A bod cyffur a reolir gan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 wedi'i nodi ar y cofnod marwolaeth</i>	
Anhwyllderau meddyliol ac ymddygiadol oherwydd	F18
Gwenwyno damweiniol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X40–X44
Hunan-wenwyno bwriadol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X60–X64
Ymosodiad gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol	X85
Gwenwyno gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol, bwriad amhendant	Y10–Y14

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2015) Deaths Related to Drug Poisoning in England and Wales, 2014. Llundain, Y Llyfrfa

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) Deaths related to drug poisoning in England and Wales. Quality and methodology information. Casnewydd, Y Llyfrfa

Fel y disgrifir uchod, mae'r term "sylweddau seicoweithredol newydd" wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol gan yr Undeb Ewropeaidd fel cyffur narcotig neu seicotropig newydd, ar ffurf bur neu wrth ei baratoi, nad yw wedi'i amserlennu o dan Gonfensiwn Sengl ar Gyffuriau Narcotig 1961 neu Gonfensiwn Sylweddau Seicotropig 1971, ond a all fod yn fygythiad i iechyd y cyhoedd sy'n gymaradwy â'r rhai a restrir yn y confensiynau hynny. (Penderfyniad Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 2005/387/JHA). Yn 2016, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol restr o sylweddau a grybwyllwyd ar dystysgrifau marwolaeth yng Nghymru a Lloegr. Rhestrir y sylweddau hyn yn Nhabl 12.

Tabl 8: Sylweddau a restrir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel 'sylweddau seicoweithredol newydd'

Sylweddau seicoweithredol newydd	1-(Benzofuran-6-yl)-propan-2-amine, GHB, 2-(1H-Indol-5-yl)-1-methylethylamine, 4-Fluoroephedrine, 4-Fluoromethcathinone, 4-Methylamphetamine, 4-Methylethcathinone, Alpha-methyltryptamine, BZP, Cathinone, Desoxypipradrol, Fluoromethcathinone, Khat, Anterth cyfreithlon, Mephedrone, Methiopropamine, Methoxetamine, Methylenedioxypyrovalerone, Methylone, cannabinoid synthetig, TFMPP
---	--

Atodiad E: Cyfyngau hyder

Daw'r disgrifiad a'r diffiniad canlynol o Gyfyngau Hyder fel y'u defnyddir ym maes iechyd y cyhoedd o Friff Technegol 3 Cymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd.³⁶

Cyfyngau hyder

Mae cyfwng hyder yn ystod o werthoedd a ddefnyddir i feintioli'r anfanyldeb yn yr amcangyfrif o werth penodol. Yn benodol, mae'n meintioli'r anfanyldeb sy'n deillio o amrywiad ar hap yn yr amcangyfrif o'r gwerth; nid yw'n cynnwys anfanyldeb sy'n deillio o wall systematig (tuedd). Mewn llawer o astudiaethau, samplu yw ffynhonnell yr amrywiad ar hap hwn. Hyd yn oed yn yr astudiaethau a ddyluniwyd orau, bydd gwahaniaethau ar hap rhwng y grŵp sampl penodol a ddewiswyd a'r boblogaeth darged gyffredinol o'r casgliad.

Felly, mae unrhyw fesuriad a gymerwyd o'r grŵp sampl yn rhoi amcangyfrif anfanwl o wir werth y boblogaeth. Ym maes iechyd y cyhoedd, mae llawer o ddangosyddion yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei ystyried yn setiau data cyflawn ac nid samplau, e.e. cyfraddau marwolaethau yn seiliedig ar gofrestrau marwolaethau. Yn yr achosion hyn, nid yw'r anfanyldeb yn codi o ganlyniad i amrywiad samplu ond amrywiad 'naturiol'. Ystyrir bod y dangosydd yn ganlyniad proses stocastig, h.y. un y gellir ei dylanwadu gan yr hapddigwyddiadau sy'n gynhenid yn y byd o'n cwmpas. Mewn achosion o'r fath, dim ond un o'r setiau a allai ddigwydd o dan yr un amgylchiadau yw'r gwerth a welir mewn gwirionedd. Yn gyffredinol, ym maes iechyd cyhoeddus, yr amgylchiadau neu'r broses sylfaenol sydd o ddiddordeb a dim ond amcangyfrif anfanwl o'r 'risg sylfaenol' hwn y mae'r gwerth gwirioneddol a welir yn ei roi.

Mae lled y cyfwng hyder yn ddibynnol ar dri pheth:

1. Maint y sampl y mae'r amcangyfrif yn deillio ohono (neu faint y boblogaeth os yw'n deillio o set ddata gyflawn). Mae samplau mwy yn rhoi amcangyfrifon mwy manwl gywir gyda chyfyngau hyder llai.
2. Maint yr amrywioldeb yn y ffenomen sy'n cael ei fesur. Yn ffodus, yn aml e'n hysbys, neu y credwyd, bod ffenomenau a welir yn dilyn rhai dosraniadau tebygolrwydd, megis y Poisson neu'r Binomaidd. Mae hyn yn ein galluogi i fynegi maint yr amrywioldeb yn fathemategol a'i gynnwys yn y fformiwla cyfwng hyder.
3. Y lefel ofynnol o hyder - mae hwn yn werth mympwyol a osodwyd gan y dadansoddwr sy'n rhoi'r tebygolrwydd a ddymunir bod y cyfwng yn cynnwys y gwir werth. Ym maes meddygaeth ac iechyd cyhoeddus, yr arfer confensiynol yw defnyddio 95 y cant o hyder, ond nid yw'n anghyffredin gweld dewisiadau eraill. Yn y gymuned APHO, mae cyfyngau hyder 99.8 y cant yn cael eu defnyddio'n gynyddol ochr yn ochr â chyfyngau o 95 y cant i adlewyrchu'r terfynau rheoli a ddefnyddir mewn dulliau Rheoli Proses Ystadegol. Mae cynyddu lefel hyder yn arwain at gyfyngiadau ehangach. Ar gyfer lefel benodol o hyder, po fwyaf yw'r cyfwng hyder, y mwyaf yw'r ansicrwydd yn yr amcangyfrif.

³⁶ Briff Technegol 3 Cymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd (2008), Commonly Used Public Health Statistics and their Confidence Intervals, www.apho.org.uk/resource/view.aspx?RID=48457

Atodiad F: Cyfrifo cyfraddau poblogaeth o dderbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau a dangosyddion iechyd cyhoeddus eraill

*Mae'r disgrifiad a'r diffiniad canlynol o sut mae cyfraddau poblogaeth yn cael eu cyfrifo a'u defnyddio yn y maes iechyd cyhoeddus wedi'u haddasu o Friff Technegol 3 Cymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd.*³⁷

Y mesur mwyaf sylfaenol a ddefnyddir yn y maes iechyd cyhoeddus yw cyfrif o ddigwyddiadau fel marwolaethau neu dderbyniadau i ysbytai. Fodd bynnag, er mwyn ymchwilio'n briodol i ddosbarthiad clefydau a ffactorau risg ac i wneud cymariaethau rhwng gwahanol boblogaethau, rhaid hefyd ystyried y boblogaeth sydd mewn perygl y gwnaed y cyfrif ynddi. Mae rhannu'r cyfrif digwyddiadau â'r boblogaeth sydd mewn perygl a llusosi â nifer penodol (er enghraifft, 100,000) yn rhoi 'cyfradd fras' o'r digwyddiadau hyn o fewn poblogaeth y gellir ei chymharu rhwng ardaloedd a all fod â niferoedd poblogaeth gwahanol iawn. Fodd bynnag, gall cyfraddau clefydau a marwolaethau amrywio'n fawr yn ôl oedran sy'n cymhlethu unrhyw gymariaethau a wneir rhwng dwy boblogaeth sydd â strwythurau oedran gwahanol.

Er enghraifft, ystyriwch ddwy ardal, A a B, gyda phoblogaethau o faint cyfartal a chyfraddau marwolaethau pob oed crai unfath. Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos bod ganddyn nhw brofiad tebyg o farwolaethau. Tybiwch, fodd bynnag, fod gan ardal A strwythur oedran iau nag ardal B. O ystyried bod cyfraddau marwolaethau yn cynyddu gydag oedran, byddai rhywun yn disgwyl i'r boblogaeth hyn yn ardal B brofi mwy o farwolaethau. Mae'r ffaith fod gan y ddau gyfraddau unfath yn golygu bod yn rhaid i'r boblogaeth iau yn ardal A gael profiad marwoldeb cymharol waeth.

Y ffordd fwyaf cynhwysfawr o gymharu profiad clefyd dwy boblogaeth yw cyflwyno a chymharu eu cyfraddau oed-benodol. Fodd bynnag, pan fydd nifer y poblogaethau sy'n cael eu cymharu yn cynyddu, mae maint y data y mae angen ei ystyried yn mynd yn anhylaw yn gyflym. Yr hyn sydd ei angen yw un ffigur cryno, hawdd ei ddehongli, ar gyfer pob poblogaeth a gaiff ei addasu i ystyried ei strwythur oedran. Cyfrifir ffigurau cryno o'r fath gan ddefnyddio dulliau safoni oedran.

Defnyddir y Boblogaeth Safonol Ewropeaidd (ESP) yn aml ar gyfer safoni uniongyrchol, lle mae cyfraddau oed-benodol y boblogaeth dan sylw yn cael eu cymhwyso i strwythur oedran y boblogaeth safonol. Mae hyn yn rhoi'r gyfradd gyffredinol yn y boblogaeth dan sylw pe bai ganddi'r proffil oedran safonol. Mae hwn yn strwythur poblogaeth damcaniaethol nad yw'n newid ac mae'r un peth ar gyfer y ddau rywedd. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio ESP 2013, a gyhoeddwyd gan Eurostat.³⁸

³⁷ Briff Technegol 3 Cymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd (2008), Commonly Used Public Health Statistics and their Confidence Intervals, www.apho.org.uk/resource/view.aspx?RID=48457

³⁸ Mae gwybodaeth a chanllawiau manwl ar ESP 2013 wedi'u cyhoeddi gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU: <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/user-guidance/health-and-life-events/revised-european-standard-population-2013--2013-esp-/index.html>.

Atodiad G: Defnydd problemus o gyffuriau: diffiniadau ac amcangyfrifon o fynychder

Mae 'defnydd problemus o gyffuriau' (PDU) yn ddangosydd a adroddwyd gan y Ganolfan Fonitro Ewropeaidd ar Gyffuriau a Chaethiwd i Gyffuriau (EMCDDA) ar sail adroddiadau cenedlaethol. Y diffiniad o PDU a ddefnyddir ar gyfer yr amcangyfrifon a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yw 'defnydd o gyffuriau trwy chwistrellu neu ddefnydd hir/rheolaidd o opioidau, cocên a/neu amffetaminau'. Mae'r diffiniad hwn yn benodol yn cynnwys defnydd rheolaidd neu hirdymor o opioidau ar bresgripsiwn fel methadon ond nid yw'n cynnwys eu defnydd prin neu afreolaidd na'r defnydd o gyffuriau eraill, fel ecstasi neu ganabis.³⁹

Mae amcangyfrif mynychder PDU yn cyflwyno heriau sylweddol, oherwydd efallai nad yw cyfran sylweddol o'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n cael ei stigmatiddio'n drwm yn gymdeithasol yn hysbys i unrhyw wasanaethau ac felly efallai nad oes cofnod o'u defnydd ar gael. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae technegau ystadegol wedi'u datblygu. Deilliodd y ffigurau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn o astudiaeth a ddefnyddiodd y dull 'dal-ail-ddal', dull sydd wedi'i hen sefydlu a ddefnyddiwyd i gynhyrchu amcangyfrifon PDU blaenorol ar gyfer Cymru a'r DU. Mae dulliau dal-ail-ddal yn cynnwys modelu rhyngweithiadau rhwng setiau data sy'n cynnwys y boblogaeth camddefnyddio sylweddau sy'n 'weladwy' i wasanaethau iechyd, triniaeth neu gyfiawnder troseddol i gynhyrchu amcangyfrifon ystadegol ar gyfer y boblogaeth 'gudd' nad ydynt mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaeth. Y setiau data ffynhonnell a ddefnyddiwyd oedd cofnodion o arestiadau'r heddlu, ymgysylltu â rhaglenni ymyrraeth cyffuriau a reolir gan y gwasanaethau prawf, asesiadau trwy driniaeth camddefnyddio sylweddau, derbyniadau i'r ysbyty a chael mynediad at raglenni nodwyddau a chwistrellau statudol, gwirfoddol a fferylliaeth (NSPs).

Y dull ystadegol traddodiadol o amcangyfrif faint o ddefnyddwyr cyffuriau sydd heb eu 'dal' ar unrhyw gronfa ddata yw trwy ddefnyddio dadansoddiadau log llinol, techneg sydd fel arfer yn ffitio cyfres o wahanol fodelau i'r data. Defnyddir y model a ystyrir yn optimaidd trwy rai meini prawf i gael amcangyfrif 'tebygolrwydd mwyaf' o ddefnyddwyr cyffuriau 'heb eu dal'.

Er bod llawer o ymchwilwyr yn dal i ddefnyddio'r dull hwn, mae dadl ar hyn o bryd ym maes amcangyfrif camddefnyddio cyffuriau ynghylch y posibilrwydd bod technegau Bayesaidd a ddatblygwyd yn ddiweddar ar gyfer amcangyfrif poblogaeth, sy'n cyfrifo amcangyfrif o'r defnyddwyr cyffuriau heb eu dal gan ddefnyddio cyfartaledd ar draws pob model, ac felly'n rhoi cyfrif ffurfiol am ansicrwydd model o fewn yr amcangyfrif poblogaeth.⁴⁰ Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn deillio o gymhwyso technegau Bayesaidd i'r data.

³⁹ EMCDDA (2010), Statistical bulletin 2010: Problem drug use indicator – overview. Lisbon, EMCDDA . Ar gael yn https://www.emcdda.europa.eu/data/stats2023/methods/pdu_en

⁴⁰ King R, Bird SM, Overstall A, Hay G, Hutchinson SJ. Injecting drug users in Scotland, 2006: Listing, number, demography, and opiate-related death-rates. *Addict Res Theory* 2013; 21(3):235-246